



STORI
LLYSIAU O
GYMRU AR GYFER
YSGOLION
2023 – 2025



Stori Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion 2023 – 2025

Gan Dr. Amber Wheeler ar gyfer Synnwyr Bwyd Cymru

Dyma stori'r cynllun **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion**. Mae'n cyfleu manylion pwysig a lliw y profiadau a rannwyd yn yr ymdrech ar y cyd i ddatblygu cadwyni cyflenwi garddwriaeth leol cynaliadwy er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Cynnwys

- 3 **Y bobl sy'n gwireddu'r cynllun a sut maen nhw'n gwneud hynny**
- 25 **2023: Blwyddyn o ddysgu**
- 37 **2024: Cydgrynhoi'r hyn a ddysgwyd**
- 54 **Cynllunio ar gyfer 2025**
- 55 **Crynodeb o'r hyn a ddysgwyd drwy'r stori**

Cyfranwyr: Katie Palmer, Sarah Gould, Edward Morgan, Elaine Blanchard, Alex Cook, Tony Little, Lorraine Powell, Emma Evans, Sian-Elin Davies, Caz Falcon, Hannah Gibbs, Pearl Costello, Dafydd Walters a Symon Dovey.

Ynglŷn â'r awdur: Mae Dr. Amber Wheeler yn arbenigwr mewn Ymchwil Weithredu ac yn gweithio o fewn tîm **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** i gefnogi'r monitro, gwerthuso, dadansoddi a'r myfyrion parhaus ar y canfyddiadau.





Y bobl sy'n gwireddu'r cynllun a sut maen nhw'n gwneud hynny

Nid yw cynyddu'r bwyd lleol sy'n cael ei gynhyrchu a'i gyflenwi drwy systemau caffael yn digwydd ar ei ben ei hun oherwydd yr heriau yn y system fwyd sy'n gweithio yn ei erbyn. Wrth wraidd yr heriau hyn mae'r ffaith bod disgwyl i ffermwyr a chynhyrchwyr dderbyn prisiau isel yn aml ac ysgwyddo'r risg sy'n gysylltiedig â chyflenwi heb gymorth digonol. Mae **Llyisiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** yn arloesi ac yn arbrofi i geisio newid hyn ac wrth wneud hynny yn llwyddo i gynyddu'r cyflenwad a'r galw am gynnyrch lleol yn y broses gaffael.

'Mae arloesi'n ymwneud â thrwsio system sydd wedi torri'

Rhanddeiliad o Awdurdod Lleol

Profiad y cynllun **Llyisiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** yw, er mwyn hwyluso'r broses o sicrhau bod cynhyrchwyr yn cyflenwi eu cynnyrch drwy brosesau caffael, y peth cyntaf y mae angen iddo ddigwydd yw i randdeiliaid allweddol ddod at ei gilydd i feithrin perthnasoedd, gan ganolbwyntio ar anghenion ffermwyr a thyfwyr.





Y rhanddeiliaid:

- Cynullwyr sy'n deall yr heriau sy'n gysylltiedig ag adeiladu system fwyd fwy cynaliadwy
- Ffermwyr a Thyfwyr a'r rhai sy'n eu cefnogi
- Cyfanwerthwyr
- Arlwywyr

Ac mae angen gwneud cysylltiadau hefyd â:

- Defnyddwyr (ysgolion a phlant ysgol yn yr achos hwn)

Cynullwyr

Fe wnaeth Synnwyr Bwyd Cymru ymgymryd â'r brif rôl gynnull ar ran **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** fel dilyniant naturiol o'r Cynllun Peilot Courgettes. Mae gan Synnwyr Bwyd Cymru strategaeth sy'n seiliedig ar dri philer allweddol:

1. Creu diwylliant bwyd cadarnhaol yng Nghymru sy'n buddsoddi mewn pobl, yn cofleidio ein treftadaeth, yn dathlu ac yn gwerthfawrogi cynnyrch "lleol" ac sy'n rhoi lle blaenllaw i addysg bwyd
2. Sbarduno chwyldro mewn prosesau caffael lleol a chynaliadwy wedi'i ysbrydoli gan arddwriaeth: dylai bwyd iach a chynaliadwy ar y plât cyhoeddus sbarduno'r galw am yr un peth ar bob plât yng Nghymru
3. Cyd-greu polisi bwyd a fframwaith deddfwriaethol sy'n galluogi newid i gynhyrchu a bwyta bwyd amaeth-ecolegol yng Nghymru er budd yr amgylchedd a chymdeithas, ac sy'n pennu targedu ar gyfer hynny ac yn ei fonitro.



Mae [Synnwyr Bwyd Cymru](#) yn gweithredu drwy adeiladu'r sylfeini ar gyfer newid drwy:

- **Ddatblygu rhwydwaith o bartneriaethau bwyd traws-sector ledled Cymru sy'n diwallu anghenion lleol er mwyn cyflawni newid cenedlaethol**
- **Treialu a graddio dulliau arloesol i ysbrydoli gweithredu gyda mentrau fel Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion**
- **Hyrwyddo a datblygu polisi bwyd da gan feithrin consensws gyda sefydliadau sy'n ymwneud â bwyd sy'n gweithredu yng Nghymru a thu hwnt drwy Gynghrais Polisi Bwyd Cymru**
- **Adrodd am brofiadau, cyflawniadau a heriau o fewn y system fwyd drwy gyfathrebu effeithiol**

Fel sefydliad, mae Synnwyr Bwyd Cymru yn deall yr heriau cynaliadwyedd ar draws y system fwyd ac yn gweithio ar lefelau lluosog i gyd-greu system fwyd sydd o les i bobl ac i'r blaned. Mae'n seiliedig ar arferion ymwybyddiaeth a ddysgwyd drwy ei waith gyda'r [Gynghrais Systemau Bwyd Ymwybodol](#) (fel hunanymwybyddiaeth a phresenoldeb, ymwybyddiaeth emosiynol, y gallu i wrando'n astud, empathi, bod yn agored, creadigrwydd, a gwydnwch) ac mae'n defnyddio pum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n ystyried bod meithrin perthnasoedd yn hanfodol i newid ac mae'n gweithio gyda'r holl Bartneriaethau Bwyd Cynaliadwy ledled Cymru sy'n chwarae rhan debyg yn rhanbarthol ac yn gweithredu fel cynullwyr/hwyluswyr newid rhanbarthol. Fel cynullydd **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion**, mae Synnwyr Bwyd Cymru wedi darparu:


- ▶ Ysbrydoliaeth, goruchwyliaeth, cydlynu a threfnu
- ▶ Codi arian
- ▶ Cyfathrebu a datblygu brand
- ▶ Trefnu a hyrwyddo digwyddiadau
- ▶ Meddwl yn strategol a hyrwyddo polisiau
- ▶ Gwerthuso, ymchwil weithredu ac adrodd



Yr heriau sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yw'r amser y mae'n ei gymryd a'r hyblygrwydd sydd ei angen ar gyfer anghenion sy'n esblygu yn sgil prosiect sy'n ehangu. Mae'n cynnwys defnyddio set o [sgiliau diplomyddiaeth bwyd](#)⁴⁴ bwyd sy'n cynnwys y canlynol:

- 1. Ffocws clir ar weledigaeth ond hyblygrwydd o ran sut i gyrraedd y nod a hyder y bydd yr atebion yn dod i'r amlwg**
- 2. Empathi a chynwysoldeb**
- 3. Ymdrin â deinameg pŵer**
- 4. Gostyngeiddrwydd – gwrandao a chyfaddef nad oes gennych chi'r atebion i gyd**
- 5. Parchu perthnasoedd a neilltuo amser iddynt**
- 6. Pragmatiaeth – dewis eich brwydrau, defnyddio'r ysgogiadau sydd ar gael**
- 7. Defnyddio ystod o ddulliau ymchwil wedi'u cyfathrebu'n syml ac yn dda**
- 8. Canolbwyntio ar yr hyn sy'n bosibl ac ar y pethau positif**
- 9. Dyfalbarhad a'r gallu i addasu a newid**
- 10. Bod yn ymarferydd adfyfyriol**

Mae cael cylch ailadroddus o ymchwil weithredu fel elfen barhaus yn sicrhau bod yr hyn a ddysgir yn cael ei adlewyrchu'n barhaus a'i fwydo i gamau gweithredu, gan wella gallu'r prosiect i esblygu'n effeithiol.



Cylch Ailadroddus Ymchwil Gweithredu Cyfranogol

⁴⁴ Wheeler (2018) A New Food Diplomacy tud.281



Roedd Partneriaethau Bwyd Cynaliadwy yn gynullwyr ac yn bartneriaid rhanbarthol hanfodol ar lawr gwlad ledled Cymru. Mae'r strwythur hwn yn rhoi cryfder i'r gwaith. Roedd gan bob ardal y bu **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** yn gweithio ynddi yn 2024 Bartneriaeth Bwyd weithgar a bu iddynt chwarae rhan allweddol mewn adeiladu perthnasoedd, gweithio gyda thyfwyr, gyrru'r gwaith yn ei flaen, cynnal gweithgareddau a threfnu ymweliadau fferm, tyfu cynnyrch, trefnu peiriannau a rennir, cefnogi drwy grantiau ac ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol.

Hyd nes y bydd yr heriau sy'n gysylltiedig â'r system fwyd wedi'u datrys ar gyfer tyfwyr a marchnadoedd a systemau mwy diogel yn cael eu datblygu i gyflenwi cynnyrch drwy systemau caffael, mae angen i'r rôl gynnull barhau ac mae angen cyfleoedd pellach i esblygu.

Ffermwyr a Thyfwyr

Er bod y sector cynhyrchu ffrwythau a llysiau yn tyfu yng Nghymru, mae'n dal i fod yn fach (tua 502 o dyfwyr) ac mae'r bobl sy'n ymuno ag ef yn aml yn newydd-ddyfodiaid neu'n dod o gefndiroedd ffermio lle nad yw'r wybodaeth a'r seilwaith ar gyfer tyfu cnydau yno mwyach. Mae hyn yn golygu bod angen mwy o gymorth ar y sector i ddatblygu nawr, yn fwy nag y byddai ei angen arno yn y dyfodol pan fydd y sector yn fwy profiadol ac ar ôl blynyddoedd o fuddsoddi.

Y tyfwyr yn 2024 ar gyfer y prosiect Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion oedd:

Langtons farm
Alfie Dans
Bremenda Isaf
Bwlchwernen farm
Underwood Farm
Awen Organics
Coedmor Gardd Enfys
Bonvilston Edge

Tyfwyr Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion yn 2025



Roedd pob un yn tyfu llysiau i'w caffael am y tro cyntaf fel rhan o'r cynllun **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** yn ogystal â chyflenwi i'w cymunedau lleol ac roedd pob un yn tyfu ar safleoedd a sefydlwyd o fewn y pum mlynedd diwethaf, ar wahân i un ffermwr a oedd wedi tyfu cnydau maes ar gyfer archfarchnadoedd ugain mlynedd ynghynt ac a aildechreuodd yn 2024 ar gyfer y cynllun **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion**. Dywedodd y tyfwyr

*'Mae'n anodd iawn i dyfwyr graddfa fach gynaeafu a marchnata. Mae **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** yn wych gan nad oes rhaid i ni feddwl am werthu'*

'Gall hyn ein helpu i dyfu. Yn y ffordd hon, mae gen i ffordd o gynaeafu llysiau ac yna gyflenwi llysiau i'r gymuned leol'

'Rwy'n dda iawn am dyfu llysiau ond ddim cystal am eu gwerthu felly mae'r prosiect hwn yn wych i mi'

'Rydym yn gyffrous iawn o fod yn arallgyfeirio o ran sut rydym yn gwerthu ein llysiau.'

Roedd y cynllun **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** yn ddefnyddiol i dyfwyr oherwydd ei fod:

- Yn darparu llwyfan ar gyfer cydweithio a chefnogaeth i dyfwyr eraill
- Yn gwarantu incwm/pris am lysiau sy'n cael eu gweini i blant (oni bai bod y cnwd yn methu)
- Yn hyblyg - nid oedd cosb am dangyflenwi ac yn aml roedd modd gorgyflenwi
- Yn darparu grantiau bach (gan y cyfanwerthwr)
- Yn rhoi cyhoeddusrwydd i dyfwyr a chyfleoedd i gael eu talu i gynnal ymweliadau fferm



Roedd yn ofynnol i dyfwyr a ymunodd â'r cynllun:

- Fod wedi cael ardystiad organig neu ddechrau ar y daith tuag at ardystiad organig - cofrestru a dechrau ar y broses
- Cyrraedd Safon i Gyflenwr sy'n Dyfwyr Graddfa Fach a bod yn destun archwiliad
- Cydweithio ar gynllun cnwd a chynhyrchu llysiau i'w cyflenwi'n wythnosol pan fyddant yn eu tymor
- Dod i gyfarfodydd tyfwyr os yn bosibl





O ran yr wyth tyfwr a ymunodd â'r cynllun yn 2024, ymgysylltwyd â phymtheg er mwyn eu hannog i gymryd rhan, ac yn 2025 ymgysylltwyd ag o leiaf bump ar hugain o dyfwyr, gyda phymtheg yn cadarnhau eu bod yn awyddus i fod yn gyflenwyr. Mae nifer o resymau pam mae tyfwyr yn wiliadwrus ac maent yn gysylltiedig â diffyg capasiti oherwydd blynyddoedd o danfuddsoddi yn y sector. I rai tyfwyr, mae amgylchiadau personol a busnes yn golygu nad yw ymuno â chadwyn gyflenwi newydd yn ymarferol iddyn nhw ar hyn o bryd, i eraill mae'r cyfuniad o orfod bodloni safonau y cyflenwr a throï'n organig ar yr un pryd yn ormod ac i eraill mae ardystiad organig yn peri gofid mawr. Hefyd oherwydd bod y prosiect yn dal i fod yn y cyfnod peilot efallai na fyddai rhai tyfwyr a ffermwyr wedi teimlo'n ddigon hyderus yn ei hirhoedledd i fentro buddsoddi mewn cadwyn gyflenwi newydd.

Cael ardystiad organig ai peidio?

Nid yw gorfod cadw at reolau ardystiad organig yn addas i rai ac nid yw'r prisiau a delir yn ddigon i'w wneud yn werth chweil gan fod y costau ychwanegol am hadau organig, compost a mewnbynnau eraill yn troi'r fantol. Nid oes amheuaeth bod ardystiad organig yn cymryd amser ac arian - tua £500 y flwyddyn, yn dibynnu ar y corff ardystio, ond mae'r manteision i'r prosiect, o ran gallu mesur budd amgylcheddol a phrofi gwerth cymdeithasol a darparu'r prawf sydd ei angen i gyfiawnhau codi prisiau uwch, yn golygu mai dyma'r ffordd fwyaf ymarferol o hyd i wneud hynny. Y manteision i'r tyfwr hefyd yw bod ardystiad organig yn cael ei gydnabod yn eang ac y gellir ei ddefnyddio i werthu cynnyrch i farchnadoedd eraill. Roedd gan rai tyfwyr ardystiad organig beth bynnag ac fe wnaeth eraill droi i fod yn gynhyrchwyr organig gan ddweud

'Nid ydym wedi gorfod cael ein hardystio o'r blaen gan nad yw ein cwsmeriaid wedi mynnu hynny. Ond nawr bod gennym farchnad ac incwm gwarantedig, byddwn ni'n gwneud hynny.'

Tyfwr



Roedd tyfwyr a oedd yn rhan o'r cynllun **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** wedi trafod dewisiadau amgen i ardystio, sydd, er enghraifft, yn cynnwys asesiad mewnol o ddulliau/canlyniadau drwy gasglu metrigau cynaliadwyedd sy'n gyfystyr â math o [system gwarant gyfranogol](#)², fel y'i defnyddir mewn rhai gwledydd eraill. Mae systemau gwarant cyfranogol yn systemau sicrhau ansawdd ac iddynt ffocws lleol. Maent yn ardystio cynhyrchwyr yn seiliedig ar gyfranogiad gweithredol rhanddeiliaid ac wedi'u hadeiladu ar sylfaen o ymddiriedaeth, rhwydweithiau cymdeithasol a chyfnewid gwybodaeth. Penderfynodd y tyfwyr y byddai'n well ganddynt gael eu hasesu gan gorff allanol yn hytrach na chan y naill a'r llall ar y cam cynnar hwn o'r prosiect ond wrth i'r cynllun **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** dyfu, gellid rhoi ystyriaeth bellach i ddewisiadau eraill heblaw ardystiad organig fel systemau gwarant cyfranogol. Ar hyn o bryd, ffordd syml o ddangos manteision bioamrywiaeth yw drwy ardystiad organig, rhywbeth a fydd yn allweddol i ddangos gwerth cymdeithasol o fewn contractau caffael.

Mae Safon i Gyflenwyr yn hanfodol – er bod y broses yn frawychus i ddechrau, mae'n bosibl

In its current form the Suppliers Standard is a little intimidating to start, Yn ei ffurf bresennol mae'r Safon i Gyflenwyr ychydig yn frawychus i ddechrau, gan eu bod yn cwmpasu llawer o wahanol agweddau er mwyn sicrhau diogelwch a'r gallu i olrhain cynnyrch, ond mae'n dal yn gwbl angenrheidiol i gynhyrchwyr ei chwblhau os yw'r gadwyn gyflenwi am fod yn ddiogel ac yn un y gellir ymddiried ynddi yn y dyfodol. Os yw'r prosesau cywir ar waith, gellir eu cwblhau mewn tua dwy awr gyda chymorth Garddwriaeth Cyswllt Ffermio. Er ei bod yn golygu haen arall o waith papur yr oedd rhai tyfwyr yn ei gweld yn feichus, dywedodd tyfwr arall 'Mae'n iawn, mae'n haws na'r hyn sy'n rhaid ei wneud yn y maes arlwy.' Mae hefyd yn hwyluso'r gallu i dyfwyr gyflenwi marchnadoedd eraill.

Hyfforddiant a meithrin gwybodaeth

Ni fyddai gwaith **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** wedi bod yn bosibl oni bai bod Llywodraeth Cymru hefyd yn ariannu Lantra i redeg Garddwriaeth Cyswllt Ffermio sy'n cynnig cefnogaeth ragorol i'r sector garddwriaeth yng Nghymru. Fe wnaeth Garddwriaeth Cyswllt Ffermio helpu i greu ac archwilio'r Safon i Gyflenwyr, trefnu cyfarfodydd, cynnal hyfforddiant pwysig ac ategol, mentora, rhwydweithio, helpu gyda chyfathrebu, gweithio ar ddigwyddiadau eiriolaeth, cefnogi cyfathrebu cadwyn gyflenwi a llawer mwy. Agwedd bwysig ar y gwaith oedd dull gweithredu hyblyg – i roi cymorth yn y ffordd orau bosibl i dyfwyr wrth i anghenion newid.

² IFOAM Organics International (2025) Participatory Guarantee System





FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO



LANTRA

Garddwriaeth Cyswllt Ffermio – Lantra a chymorth i dyfwyr

Mae Garddwriaeth Cyswllt Ffermio yn bartner hanfodol yn y cynllun Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion, gan ganolbwyntio ar hyfforddi a chefnogi tyfwyr i ddarparu cynnyrch diogel o ansawdd uchel. Yn 2023, datblygwyd y 'Safon i Gyflenwyr sy'n Dyfwyr Graddfa Fach' i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion diogelwch bwyd deddfwriaethol.

Nodweddion allweddol y Safon i Gyflenwyr sy'n Dyfwyr Graddfa Fach oedd:

- Rhoi sicrwydd i Dyfwyr a Phrynwyr: Mae'r safon yn rhoi hyder i bobl bod yr holl risgiau diogelwch bwyd yn cael eu hasesu a'u rheoli.
- Archwiliadau Safle: Mae safleoedd tyfwyr yn cael eu harchwilio i sicrhau cydymffurfiaeth.
- Cymorth Busnes Un-i-Un: Mae ymgynghorwyr diogelwch bwyd yn cynnig arweiniad personol i dyfwyr ar bwysigrwydd a gweithrediad y safon.
- Llyfrgell Adnoddau: Gall tyfwyr gael mynediad at dempledi ar gyfer asesiadau risg, polisiau a dogfennaeth.
- Modiwlau Hyfforddi: Mae'n ofynnol i dyfwyr gwblhau dau fodiwl e-ddysgu: Diogelwch Bwyd ar gyfer Tyfwyr Cynnyrch Ffres a Diwydrwydd Dyladwy ar gyfer Tyfwyr Graddfa Fach.
- Cefnogaeth Barhaus: Mae cymorth un-i-un ychwanegol a sesiynau agored ar gael gydag ymgynghorwyr er mwyn holi cwestiynau.
- Esblygiad y Safon: Mae'r Safon i Dyfwyr Graddfa Fach wedi'i mireinio yn seiliedig ar adborth gan dyfwyr a phrynwyr i sicrhau ei bod yn hawdd ei defnyddio ac yn ymarferol. Mae proses o welliant parhaus yn anelu at wneud y safon yn offeryn buddiol i bob rhanddeiliad.



Effaith Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion ar Ddarparu Rhaglen Garddwriaeth Cyswllt Ffermio

Adnabod Anghenion Hyfforddi: Mae cymryd rhan yn y cynllun Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion wedi amlygu nifer o anghenion hyfforddi i dyfwyr, gan annog Garddwriaeth Cyswllt Ffermio i gynnig hyfforddiant wedi'i dargedu ar bynciau megis:

- Trawsnewid i Dyfu Cynnyrch Organig
- Rheoli Plâu a Chlefydau
- Cynaeafu'n Ddiogel
- Technegau Storio Priodol
- Rhagfynegi Pwysau Cnwd
- Pynciau ychwanegol drwy'r Rhaglen Cyswllt Ffermio ehangach (e.e., Cymorth Cyntaf, Rheoli Cnoflod)
- Dysgu rhwng Cymheiriaid: Mae grŵp WhatsApp a chyfarfodydd ar-lein rheolaidd wedi'u sefydlu er mwyn i dyfwyr rannu diweddariadau, gan hwyluso trafodaethau ar bynciau amrywiol fel dewis hadau a rheoli chwyn. Mae cynrychiolwyr Garddwriaeth Cyswllt Ffermio yn cymryd rhan yn y trafodaethau hyn i ddeall anghenion tyfwyr yn well, gan ganiatáu iddynt ddatblygu taflenni ffeithiau, gweithdai ac adnoddau perthnasol wedi'u teilwra i'r anghenion hynny.

Mae'r dull cydweithredol hwn yn hyrwyddo cymuned gefnogol ymhlith tyfwyr ac yn gwella effeithiolrwydd cyffredinol rhaglen Garddwriaeth Cyswllt Ffermio.





Yr angen i fuddsoddi mewn seilwaith

Mae 'Grantiau Bach Dechrau Busnes Garddwriaeth' Llywodraeth Cymru a'r 'Cynllun Arallgyfeirio Amaethyddol a Garddwriaeth' sydd newydd gael eu cyfuno yn gymorth i'w groesawu ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith ond dim ond cyfran o'r costau y mae'r grantiau'n eu talu, sy'n broblem i fusnesau nad oes ganddynt lawer o gyfalaf a refeniw, ac maent yn cymryd amser maith i'w prosesu. Roedd grantiau bach iawn o hyd at £3000 a roddwyd gan y cyfanwerthwr fel rhan o'r cynllun **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** yn fuddiol iawn ac yn helpu i gefnogi buddsoddiadau mewn seilwaith yr oedd eu hangen ar unwaith i helpu i gynyddu'r cyflenwad a byddent yn cael eu hargymell fel rhan o unrhyw becyn cymorth ychwanegol yn y dyfodol.

Mae angen penodol am fuddsoddiad mewn peiriannau fferm sy'n ddefnyddiol i arddwriaeth ac mae rhai gwersi i'w dysgu yma o'r treialon cylch peiriannau garddwriaeth sydd wedi'u cydgysylltu drwy Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol ac a gynhaliwyd yn [Sir Gaerfyrddin](#)³ er enghraifft.

Yr angen am fwy o gymorth garddwriaethol i annog mwy o gynhyrchwyr

Mae angen dau brif ddull tyfu ar gyfer **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion**: garddio marchnad sy'n cynhyrchu swm sylweddol o salad, tomatos a chiwcymbrau mewn twneli polythen a thyfu cnydau fel brocoli a moron mewn caeau. Byddai cymorth ariannol ar gael ar gyfer y ddau o'r rhain drwy haenau Dewisol a Chydweithredol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

³ Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol (Fel yn 2025) Cylch Peiriannau Sir Gaerfyrddin





Mae'r amcangyfrif o'r incwm o un hectar o lysiau a gynhyrchir rhwng £15,000 a £80,000 a'r cyfartaledd yw tua £50,000. [Bydd hyd at 80% o'r incwm hwn](#)⁴ yn cael ei wario ar gyflogau ac felly'n darparu swyddi mewn ardaloedd gwledig. Bydd 10%-20% yn cael ei wario ar gostau sefydlog gan adael 10% o elw ar y mwyaf, sy'n diflannu'n gyflym gyda thywydd gwael. Costau seilwaith cyfalaf³ ar gyfer gardd farchnad un hectar yw tua £145,000-£220,000. Mae hyn yn golygu, yn ymarferol, bod newydd-ddyfodiaid i arddwriaeth yn ei chael hi'n anodd gwneud bywoliaeth o'r maes, er bod eu trosiant yn uchel.

Yn gyffredinol, mae incwm ffermwyr yn isel ond maent yn cael rhywfaint o gymorth ariannol, a'r cyfartaledd yng Nghymru ar gyfer 2024 oedd [tua £15,000](#)⁵ fesul fferm. Ond mae taliadau cymhorthdal ffermydd wedi bod, ac yn parhau i fod, yn seiliedig ar arwynebedd tir, a dim ond ychydig iawn o dir sydd ei angen yn y maes garddwriaeth er mwyn tyfu symiau mawr o gynnyrch. Felly mae garddwriaeth wedi cael llawer llai o fuddsoddiad na mathau eraill o ffermio ac mae angen cefnogaeth a buddsoddiad ar y maes hwn er mwyn ei ehangu'n effeithiol.

Y taliadau organig cyfredol ar gyfer garddwriaeth gan [Lywodraeth Cymru](#)⁶ yw £300 fesul hectar. Yn ymarferol, mae mwyafrif y tyfwyr yng Nghymru ([57%](#))⁷ yn tyfu eu cynnyrch ar lai na 5 hectar sy'n golygu bod y rhan fwyaf o dyfwyr organig yn cael tua £1500 y flwyddyn ar y mwyaf. Mae hyn yn golygu, yn ymarferol, bod newydd-ddyfodiaid i arddwriaeth yn ei chael hi'n anodd gwneud bywoliaeth, er bod eu trosiant yn uchel.

⁴ New Entrants to agroecological farming (2020) Landworkers' Alliance

⁵ Llywodraeth Cymru (Fel yn 2025) Hyd at heddiw, mae 94% o ffermwyr wedi cael taliad llawn neu ail daliad Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS) 2024.

⁶ Llywodraeth Cymru (2024) Cymorth Organig 2024: crynodeb

⁷ Arolwg gwaelodlin Tyfu Cymru (2020)



Dylai haenau Dewisol a Chydweithredol o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ddechrau mynd i'r afael â hyn er mwyn rhoi cymorth ariannol ar waith a fyddai'n helpu'r sector, yn arddwyr marchnad a ffermwyr maes fel ei gilydd, i ehangu. Yn seiliedig ar brofiad Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion, argymhellir bod haen gydweithredol yn cael ei sefydlu i ymgorffori cymorth i dyfwyr. Er enghraifft, gallai'r rhai sy'n cydweithio ar gadwyn gyflenwi, sy'n bodloni Safon i Gyflenwr sy'n Dyfwyr Graddfa Fach neu safon gyfatebol, sy'n ymuno â chynllun i wirio metrigau cynaliadwyedd, sy'n cytuno i dalu'r gyfradd cyflog yng [Ngorchymyn Cyflogau Amaethyddol \(Cymru\) a wnaed ym mis Ebrill 2025](#)⁸ (sy'n debygol o fod ar yr un gyfradd â'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol o leiaf) neu'r Cyflog Byw Go iawn Cenedlaethol ac sy'n trefnu ymweliadau â'u fferm, dderbyn y canlynol yn flynyddol:

- **Cymorth ar gyfer cydweithio**
- **Cyllid tuag at gost ardystiad/cynllun sicrwydd i brofi dull cynhyrchu**
- **Costau i dalu am rai anghenion seilwaith ar gyfer dulliau cynhyrchu cynaliadwy**
- **Cyllideb ar gyfer ymweliadau â ffermydd/ysgolion**
- **A chyfraniad tuag at lafur, yn seiliedig ar y nifer a gyflogir**

Argymhellir y dylai lefel y cymorth fod rhywle rhwng £10,000–£20,000 fesul busnes cynhyrchu. Byddai hyn yn rhoi garddwriaeth ar yr un lefel â mathau eraill o amaethyddiaeth yng Nghymru ac yn rhoi cymorth ystyrlon a fyddai'n cynnig cymhelliant i gynhyrchu llysiau mwy cynaliadwy yng Nghymru.

Yr angen am gymhelliant hirdymor yn ymwneud â phrisiau

Byddai ychwanegu dim ond 3.3c at y gost a delir am bryd ysgol, drwy gyllidebau Allau a Llywodraeth Cymru, yn anfon neges i ffermwyr a thyfwyr bod marchnad gynaliadwy, sicr a theg ar gyfer cynnyrch cynaliadwy ledled Cymru yn y dyfodol. Byddai hyn yn helpu i gymell y math o fuddsoddiad mewn seilwaith sydd ei angen ar ffermydd ac nad yw prosiect yn ei gyfnod peilot yn unig yn gallu rhoi sicrwydd i'r sector cyhoeddus a helpu'r sector cyhoeddus i ddod yn ysgogydd gwirioneddol ar gyfer newid cadarnhaol mewn cynhyrchu llysiau cynaliadwy.

⁸ Llywodraeth Cymru (2024) Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2025 (dogfen ymgynghori)





Cyfanwerthwyr

'Y llysiau drutaf yw'r llysiau na allwch chi eu cael'

Castell Howell



Yn ystod 2023 a 2024 roedd **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** yn ffodus i gael y cyfanwerthwr Castell Howell yn cymryd rhan yn y cynllun, cwmni a oedd yn deall y pwysau ar y system fwyd a bregusrwydd cadwyni cyflenwi byd-eang a'r angen i feithrin gwydnwch lleol a buddsoddi mewn cadwyni cyflenwi lleol. Fe wnaeth y cwmni adrodd am broblemau amser real gyda chyflenwad oherwydd effeithiau newid hinsawdd, er enghraifft

'Pedair i bum wythnos yn ôl cawsom e-bost gan gyflenwr llysiau wedi'u rhewi yn dweud bod gostyngiad o draean ym mhwysau cnydau moron yn Ewrop yn gyffredinol ac efallai na fyddai'n bosibl cynaeafu'r ddwy ran o dair o'r cnydau sydd ar ôl yn y ddaear oherwydd y tywydd. Rydym yn gweld hyn yn aml.'

Ym mis Tachwedd 2024 arweiniodd llifogydd yn Valencia at brinder dail salad ffres a brocoli ffres yn eu cadwyn gyflenwi.

Mae Castell Howell yn gyfanwerthwr bwyd sy'n arbenigo mewn cyflenwi'r sector gwasanaeth bwyd. Mae Awdurdodau Lleol yn cynrychioli 24% o'u gwerthiant. Nid llysiau yw ei fusnes craidd a dim ond 5% o'i werthiant sy'n gynnyrch ffres. Mae'n prynu llawer o lysiau wedi'u rhewi o Ewrop, tua 1500 o dunelli y flwyddyn, ac yn eu cyflenwi i Awdurdodau Lleol a busnesau yng Nghymru.



Heb gwmni Castell Howell a'r gwaith y mae wedi'i wneud, mae'n deg dweud na fyddai **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** wedi gwneud cymaint o gynnydd. Dyma restr o rai o'r pethau y mae Castell Howell fel cyfanwerthwr wedi'i wneud ac yn parhau i'w wneud i gefnogi **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion**:

- Cyfarfod yn rheolaidd â thyfwyr a rhanddeiliaid eraill a datblygu perthnasoedd
- Datblygu systemau cyfathrebu newydd gyda thyfwyr i bennu'r symiau i'w casglu
- Casglu llysiau gan dyfwyr
- Bod yn hyblyg o ran y manylebau ar faint a siâp llysiau ac ati
- Bagio a golchi llysiau lle bo angen
- Prynu gwargedion os oes angen a'u cynnwys yn y gadwyn gyflenwi ehangach
- Defnyddio llysiau eraill yn lle llysiau o Gymru os nad ydynt ar gael yn lleol
- Gweithio gyda rheolwyr Arlwy Awdurdodau Lleol i'w hannog a'u cefnogi i brynu llysiau lleol ac organig
- Cefnogi digwyddiadau a chyfleu stori newyddion da y prosiect
- Darparu gwybodaeth a data pan fo angen gan gynnwys ar gyfer dadansoddi cylch bywyd brocoli
- Gweithio gyda Phartneriaethau Bwyd Cynaliadwy ac eraill i helpu i drefnu gweithgareddau mewn ysgolion a ffreuturau
- Gweithio gyda phroseswyr i geisio datblygu opsiynau llysiau wedi'u sleisio a'u deisio
- Gweithio ar ddatblygu cynnyrch sy'n cynnwys llysiau ac ymestyn oes silff
- Trefnu profion maeth ar llysiau
- Cynnig grantiau bach hyd at £2500 y flwyddyn i dyfwyr i'w helpu gyda chostau
- Cytuno i dalu'r gwahaniaeth rhwng pris arferol Awdurdod Lleol a'r prisiau organig a delir i dyfwyr os nad yw'r prosiect yn sicrhau cyllid
- Peidio ag ychwanegu at brisiau llysiau lleol organig er mwyn gwneud elw
- Noddi Academi Amaeth i'r Ifanc a phennu 'garddwriaeth ar fferm Cymru' yn bwnc ymchwil er mwyn ceisio ysgogi diddordeb ymysg Ffermwyr Ifanc

'Ein prif fusnes yw cefnogi cynhyrchwyr Cymreig. Gadewch i ni fuddsoddi arian i ddosbarthu'r cynnyrch yn ehangach a helpu tyfwyr graddfa fach yng Nghymru.'

Castell Howell





'Mewn undod mae nerth'

Castell Howell

Ydy Castell Howell yn achos arbennig?

Nid oes amheuaeth bod cyfraniad Castell Howell fel cyfanwerthwr at y gwaith hwn yn eithriadol ac os yw cyfanwerthwyr eraill am gefnogi cadwyni cyflenwi cynnyrch ffres lleol yna mae ei esiampl yn enghraifft o arfer gorau hyd yma. Fodd bynnag, mae yna gyfanwerthwyr eraill sydd â diddordeb mewn cefnogi cyflenwyr lleol a chyflenwi'r llysiau lleol y mae llawer o Awdurdodau Lleol eu heisiau. Amser a ddengys p'un a yw cyfanwerthwyr eraill yn deall faint o waith sydd angen ei wneud i gefnogi tyfwyr lleol i gyflenwi drwy brosesau caffael ac ehangu'r sector, neu a oes ganddynt y gallu i wneud hynny, ond mewn egwyddor bydd dau gyfanwerthwr newydd, Bwydydd Oren yng Ngogledd Cymru a WR Bishop ym Mro Morgannwg yn gweithio gyda **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** yn y dyfodol ac yn cael cyfle i arloesi yn y maes hwn.

***'Mae'n anoddach yn hytrach nag anodd.
Rydym yn gyfarwydd â delio â chyflenwyr
llai. Mae gennym gydymdeimlad ac empathi.
Mae'r ffermwr yn gwneud ffafr i ni'***

Castell Howell

***'Heb os bydd hyn yn helpu gyda diogelwch
bwyd a sofraniaeth bwyd a rheoli'r risg ar
draws y gadwyn gyflenwi.'***

Castell Howell





Awdurdodau Lleol, Arlwywyr a Chaffaelwyr

Un o'r rhesymau pam mae **Llyisiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** wedi gallu cyflawni'r hyn a gyflawnwyd yng Nghymru yw oherwydd bod Awdurdodau Lleol, yn bennaf (ac eithrio dau o blith y ddau ar hugain), yn darparu gwasanaeth arlwyio mewnol i ysgolion cynradd ac mae ganddynt berthynas â chyfanwerthwr lleol sy'n credu mewn datblygu cadwyni cyflenwi lleol ac sydd wedi gweithio'n galed i wireddu hynny.

Mae [Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus \(Cymru\) 2023](#)⁹ yn golygu bod contractau bellach yn cael eu dyfarnu ar sail gwerth cymdeithasol yn ogystal â gwerth ariannol; nid yw deddfwriaeth yn caniatáu prynu am y pris isaf yn unig. Mae hyn yn gosod y cefndir ar gyfer dogfennau tendro sy'n gofyn i gontractau sicrhau gwerth cymdeithasol. Mae llawer o Awdurdodau Lleol eisiau prynu cynnyrch Cymreig lleol cynaliadwy, ac wrth wneud hynny yn cefnogi gwaith teg a swyddi lleol, ac mae'r gallu i gyflenwi cynnyrch lleol yn aml yn cael ei ddatgan yn eu dogfennau gwahoddiad i dendro

'Mae'r prosiect hwn wedi bod ein galluogi i roi tic mawr yn y bocs. Rydym eisiau gwthio'

Awdurdod Lleol

⁹ Legislation.gov.uk (2023) Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023



Y prif rwystr hyd yma fu diffyg argaeledd llysiau gan gynhyrchwyr lleol sy'n gallu cyflenwi ar raddfa fawr, rhywbeth y mae **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** yn dechrau mynd i'r afael ag ef drwy gydweithio a marchnad ddiogel. Y rhwystr arall oedd bod contractau'n rhy fawr ac yn ormod o risg i dyfwyr ymrwymo iddynt ar hyn o bryd, ac mae hyn yn rhywbeth y mae **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** yn ei oresgyn wrth i dyfwyr gydweithio â chyfanwerthwyr y mae ganddynt eisoes gcontractau gydag Awdurdodau Lleol. Mae hyn yn debyg i'r hyn a fydd yn digwydd ar lefel y DU fel rhan o gytundeb masnachol [Buying Better Food and Drink](#)¹⁰ Gwasanaeth Masnachol y Goron lle y bydd gan dimau caffael y sector cyhoeddus yr opsiwn i ychwanegu'r cyflenwyr o'u dewis sy'n fusnesau bach at y cytundeb a'r rhai sy'n hanu o'u hardal ddaearyddol agosaf. Yn y sefyllfa hon efallai y bydd Awdurdod Lleol yn gallu datgan ei fod am brynu llysiau, dyweder o'r cynllun **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion**, a byddai'n rhaid i'r cyfanwerthwr dan gcontract geisio gwneud hynny

Fodd bynnag, yr hyn nad yw'r system hon yn ei wneud yw datblygu perthnasoedd yn y system a'r perthnasoedd a'r ddealltwriaeth yma sy'n llywio arloesedd yng Nghymru..

Synnwyr Bwyd Cymru

Pwysau ar wasanaethau arlwyo ysgolion

Mae'n werth amlinellu rhai o'r pwysau a wynebwr gan dimau arlwyo Awdurdodau Lleol a'r cyd-destun y maent yn gweithio ynddo i ddeall beth sy'n dylanwadu ar benderfyniadau prynu a sut y gallwn eu cefnogi i symud tuag at brynu mwy o lysiau lleol.

Yn sgil cyflwyno'r ddarpariaeth Prydau Ysgol Am Ddim i Holl Ddisgyblion Ysgolion Cynradd yng Nghymru, gwelwyd cynnydd enfawr yn nifer y prydau sy'n cael eu darparu mewn ysgolion yn ystod cyfnod byr iawn o amser. Mewn llawer o achosion nid oedd cyfleusterau'r gegyn yn ddigon mawr, roedd angen cyfarpar newydd ac mewn achosion eraill roedd yn rhaid i'r prydau gael eu coginio yn rhywle arall a'u cludo i'r ysgolion. Mae ardaloedd Awdurdodau Lleol ledled Cymru bellach yn gweini tua 31.5 miliwn o brydau bwyd y flwyddyn. Mae Awdurdodau Lleol wedi ymdopi â'r cynnydd ond mae llawer o bwysau o hyd ar y system gyda'r angen i weini bwyd i niferoedd mawr o blant yn ystod cyfnod byr.

¹⁰ Gwasanaeth Masnachol y Goron (Fel yn 2025) New first of its kind CCS agreement for public sector food procurement goes live



'Rydym yn defnyddio llawer o llysiau wedi'u rhewi, gan fod hynny'n llai trafferthus.'

Rheolwr Arlwy Awdurdod Lleol

Ffactor sy'n gwaethygu'r sefyllfa yw prinder staff. Ceir her recriwtio a chadw ym maes arlwy ysgolion, ac mae 74% o aelodau [Cymdeithas Arlwy Awdurdodau Lleol](#)¹¹ yn adrodd am ddiffyg ymgeiswyr, a swyddi cynorthwywyr cegin yw'r rhai anoddaf i'w llenwi. Mae yna hefyd [bwysau'n gysylltiedig](#)¹² â chwyddiant ar gostau staff ac ynni (yn ogystal â bwyd) a gwyddom fod 76% o gost cinio ysgol yn cael ei wario ar y gorbenion hyn. Mae hyn yn golygu, yn anad dim arall, mai cyfleustra a symlrwydd yw'r brif ystyriaeth wrth brynu bwyd ar gyfer ceginau. Dyna pam mae llysiau wedi'u rhewi sydd wedi'u paratoi ymlaen llaw o'r DU, Ewrop a thu hwnt wedi dod yn ddewis poblogaidd.

Mwy o amser paratoi

Vegetables that are non-uniform, different from what people have wahanol i'r hyn y mae pobl wedi dod yn gyfarwydd â'u prynu mewn archfarchnadoedd, yn gofyn am fwy o waith paratoi ac mae hyn yn golygu bod angen i staff y gegin neilltuo mwy o amser i hyn pan fyddant eisoes dan bwysau. Felly pan oedd **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** yn cynnig moron bach, cyfan, organig, am yr un pris â moron arferol, roedd rheolwyr arlwy yn ochelgar ynghylch eu harchebu, a hynny'n ddealladwy. Yn y dyfodol bydd mwy o sylw'n cael ei roi i fanylebau, er enghraifft gyda moron, bydd moron mwy yn cael eu tyfu ar gyfer gwasanaethau arlwy er mwyn lleihau'r amser paratoi. Bydd y rhain hefyd yn well ar gyfer cyfarpar paratoi llysiau sydd eisoes wedi cael eu gosod mewn llawer o geginau. Hefyd, mae angen cyfathrebu'n dda â staff y gegin ynghylch pa llysiau fydd yn eu cyrraedd a faint o waith paratoi y gallai fod ei angen. Ychydig iawn o newid o ran amser paratoi sydd ei angen ar rai o'r llysiau sy'n cael eu tyfu gan y cynllun **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion**:

Bron ddim newid yn yr amser paratoi:

tomatos, letys, ciwcymbr, winwns, courgettes

Rhywfaint o newid yn yr amser paratoi:

newid o foron, brocoli, blodfresych a chennin wedi'u rhewi i gynnyrch ffres.

¹¹ LACA (Accessed 2025) LACA Calls for UIFSM &FSM increases due to rising food costs

¹² Wales Centre for Public Policy (2023) Understanding the cost of universal primary free school meals



Prosesu, rhewi a gwastraff

Mae cyfle hefyd i ailedrych ar yr opsiwn sleisio a deisio, lle mae trydydd parti'n paratoi'r llysiau, ond heb gyfleusterau rhewi mae hyn yn lleihau oes silff y llysiau'n sylweddol felly mae angen pwysu a mesur manteision hyn o gymharu â chynhyrchu mwy o wastraff posibl yn y system. Yn y pen draw, os bydd symiau'r llysiau Cymreig a gynhyrchir yn ddigon uchel, bydd mwy o gymhelliad i fuddsoddi mewn cyfleusterau rhewi yng Nghymru, ond dylid dechrau ymchwilio i'r cyllid ar gyfer hyn nawr.

Mae creu gwastraff ychwanegol mewn ceginau yn rhwystr i brynu llysiau ffres. Mewn ymdrech i gymell ysgolion i leihau gwastraff, mae'n rhaid iddynt bellach dalu am waredu gwastraff. Fodd bynnag, gallai hyn arwain yn anfwriadol at fwy o fwydydd wedi'u paratoi ymlaen llaw yn cyrraedd y gegin yn hytrach na rhai ffres y mae angen eu prosesu ac sy'n creu pillion a gwastraff. Mae angen monitro effaith y polisi hwn i sicrhau nad yw'n arwain at ddefnyddio mwy o fwydydd wedi'u prosesu mewn ceginau ysgol. Mae angen sicrhau bod y deunydd pacio ar llysiau'n cael ei leihau i'r eithaf hefyd ac argymhellir bod **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** yn edrych ar ffyrdd o leihau deunydd pacio a sicrhau ei fod mor gynaliadwy â phosibl.

Bydd unrhyw beth y gellir ei wneud, o fewn y system bresennol i wneud llysiau organig Cymreig yn fwy cyfleus a haws eu trin mewn ceginau yn helpu i hwyluso prynu mwy. Gallai mwy o amser wedi'i ariannu i staff y gegin baratoi llysiau ffres, yn ogystal â mwy o wybodaeth a hyfforddiant ar sut i wneud hynny, helpu hefyd.

Safonau Bwyd Ysgol a Llysiau

Mae adolygiad o Reoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Safonau a Gofynion Maeth) 2013 ar y gweill yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'n bosibl y bydd y newidiadau arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol weini dau ddogon o lysiau fesul pryd, yn hytrach nag un, fel mater o drefn. Ar hyn o bryd gall bwydlenni nodi 'llysiau tymhorol' ac mae hyn yn galluogi ychwanegu llysiau lleol, sydd ar gael, at y fwydlen yn eithaf hawdd. Os bydd bwydlenni'n symud tuag at nodi'r union lysiau, yna gallai hyn lesteirio defnyddio llysiau tymhorol ac amharu ar hyblygrwydd yn ogystal ag atal defnyddio cyflenwadau lleol ac felly ni fyddem yn ei argymhell.





Defnyddwyr: plant mewn ysgolion yng Nghymru

'Roeddwn i'n arfer dweud mai'r plant hyn yw'r rhai a fydd yn gwneud penderfyniadau yn y dyfodol. Erbyn hyn rwy'n dweud mai dyma'r rhai a fydd yn gyfrifol am gyflawni newid'

Swyddog Ymgysylltu ag Ysgolion Awdurdod Lleol

Mae plant ledled Cymru yn mynnu bod eu systemau bwyd yn newid ac yn cymryd rhan yn y broses. Nid dim ond derbynyddion bwyd ysgol heb unrhyw ddewisiadau yw plant, maent yn chwarae rhan yn y broses o newid y system er gwell. Mae gwaith arloesol yn cael ei wneud gan blant yng Nghymru i wella cynaliadwyedd eu bwydlenni. Yn Sir Fynwy, mae gwaith sy'n cael ei drefnu gan [Maint Cymru mewn partneriaeth â Chyngor Sir Fynwy](#)¹³ ac eraill, sy'n rhoi lle blaenllaw i blant, wedi arwain at ychwanegu korma ffacbys, pryd gyda chynhwysion dim datgoedwigo, at y fwydlen. Yn Nhorfaen mae'r tîm arlwyo ysgolion wedi datblygu [Map Taith](#) gynaliadwy ryngweithiol sy'n estyn allan at rieni a phlant i'w helpu ar eu taith tuag at gynaliadwyedd. Mae wedi nodi **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** fel dull o brynu mwy o gynnyrch lleol yn 2025.

¹³ Maint Cymru (Fel yn 2025) Korma Ffacbys: Cam Tuag at Greu Bwydlenni Ysgol gyda Chynhwysion Dim Datgoedwigo



Yng Ngheredigion bu plant yn ymgyrchu i gael eu Hawdurdod Lleol i ymuno â **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion**. Ymwelodd plant blynyddoedd 3 a 4 Ysgol y Dderi yn Llanybi yng Ngheredigion â fferm Bwlchwernen ym mis Medi 2024 a dysgu am y prosiect **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** a sut roedd moron o'r fferm yn cael eu cyflenwi i ysgolion ar draws De a Gorllewin Cymru. Ar y pryd nid oedd Ceredigion yn rhan o'r cynllun **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** felly penderfynodd plant Ysgol y Dderi ymgyrchu i sicrhau bod moron Bwlchwernen yn cael eu cynnwys yn eu cinio ysgol.

Arweiniodd hyn at brosiect ysgol byw a oedd yn anelu at sicrhau bod llysiau lleol yn cael eu defnyddio yng nghegin Ysgol y Dderi. Gwahoddodd y plant bennaeth arlwy'r Awdurdod Lleol i ddod i siarad â nhw am y gwasanaeth prydau ysgol. Fe wnaethant hefyd wahodd y cyfanwerthwr Castell Howell i ddod i siarad â nhw am gadwyni cyflenwi ac fe wnaethant ysgrifennu at eu gwleidyddion lleol, yn ogystal ag aelodau'r Awdurdod Lleol, i weld a allent helpu i ddylanwadu ar y ffordd y caiff llysiau eu prynu ar gyfer prydau ysgol a'i newid.

Un o'r gwleidyddion hynny a ddaeth i glywed am y gwaith yr oedd y plant yn ei wneud yn Ysgol y Dderi oedd Arweinydd yr Awdurdod Lleol, a oedd hefyd yn awyddus iawn i gynnwys mwy o gynnyrch Cymreig ym mhrydau ysgol y sir. Yn fuan wedyn cafwyd trafodaeth gydag aelodau o dîm y prosiect **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion**, gan arwain at yr Awdurdod Lleol yn dod yn rhan o'r prosiect.

Meddai Pennaeth Ysgol y Dderi

'Roedd fy nosbarth blwyddyn 3 a 4 wrth eu bodd o glywed eu bod wedi llwyddo i sicrhau bod moron Bwlchwernen ar ein bwydlen ysgol. Maen nhw'n gwerthfawrogi, er ei fod yn ymddangos yn addasiad syml, ei fod mewn gwirionedd yn hynod o anodd a bod yn rhaid i lawer o bobl ddylanwadol fod yn yr un ystafell ar yr un pryd yn anelu at yr un nod. Rwy'n falch iawn bod fy mhlant wedi dysgu bod eu lleisiau'n bwysig a bod pobl yn gwrando arnyn nhw. Yn olaf – bydd moron o Fwlchwernen yn cael eu gweini amser cinio yn Ysgol y Dderi.'

Os ydych yn cael trafferth cynnwys bwyd cynaliadwy lleol ar fwydlen yr ysgol, gofynnwch i'r plant beth maen nhw ei eisiau fel man cychwyn. Mae gan ddefnyddwyr ran allweddol i'w chwarae ac mae'n werth eu cynnwys ar gam cynnar.





2023: Blwyddyn o ddysgu

'Rydych chi'n dysgu mwy pan fydd pethau'n mynd o chwith na phan fyddan nhw'n mynd yn unol â'r cynllun'

Cyfanwerthwr

Yn 2023 yr her gyntaf oedd sicrhau mwy o dyfwyr ar gyfer y cynllun peilot ac ar ôl siarad â llawer o ddarpar dyfwyr, ymrwymodd tri i dyfu llysiau organig. Y rhain oedd y tyfwyr gwreiddiol, sef Blas Gwent ger Caerdydd, Bonvilston Edge ger y Barri a Fferm Langtons ger Crucywel. Roedd y cynllun **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** wedi dysgu cryn dipyn o wersi o'r cynllun peilot Courgettes a rhoddodd y rheini ar waith yn ystod 2023. Roedd yr amseru'n anghywir, roedd y mathau o lysiau'n anghywir, roedd y tywydd yn heriol, roedd angen datblygu safon diogelwch bwrpasol, roedd y systemau a'r cyfathrebu yn drwsgl ac roedd angen hunaniaeth ar gyfer llysiau Cymreig. Roeddem hefyd yn cydnabod yr angen i dyfwyr fabwysiadu'r un arferion cynhyrchu amgylcheddol i gyfiawnhau cael yr un pris. Ac er eu bod yn ddylanwadol ac yn werth chweil, roedd cynnal gweithgareddau ysgol ac ymweliadau fferm yn cymryd llawer o amser.





Amseru anghywir

Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar gyfer y tyfwyr ym mis Mawrth 2023. Er bod hynny'n anochel oherwydd yr oedi gyda chyllid, roedd hyn yn llawer rhy hwyr yn y tymor er mwyn cynllunio cnydau. Ar y cam hwn o'r tymor tyfu, mae hadau wedi'u prynu ac mae llawer eisoes wedi cael eu plannu dan orchudd, ac mae tyfwyr wedi cwblhau eu cynlluniau cnydau (erbyn mis Chwefror fel arfer). Ar y pryd, nid oedd y prosiect yn gwybod pa Awdurdodau Lleol fyddai'n cymryd rhan a beth fyddent yn ei brynu. Un o'r rhesymau oedd bod Awdurdodau Lleol yn amharod i ymrwymo i symiau o lysiau ar gyfer y cynllun Bwyd a Hwyl dros wyliau'r haf gan nad oeddent yn gwybod faint o ysgolion a phlant a fyddai'n cymryd rhan a dim ond ym mis Mehefin y byddent yn cael y wybodaeth hon. Achosodd hynny oedi. Ni weithiodd yr hyn a fu'n llwyddiannus ar gyfer blwyddyn un gyda thunnell o un cnwd o courgettes cystal wrth ehangu'r mathau a'r symiau o lysiau. Pan benderfynodd un Awdurdod Lleol gymryd llysiau yn nhymor yr Hydref roedd modd cynllunio'n well, gan ei bod yn haws amcangyfrif y niferoedd, ac roedd hon yn wers ar gyfer y dyfodol.



Y mathau anghywir o lysiau a gormod ohonynt

'Roedden ni'n gweithio yn y tywyllwch.'

Oherwydd bod yn rhaid plannu cnydau cyn i'r prosiect gael ymrwymiadau terfynol gan Awdurdodau Lleol, fe wnaeth y tyfwyr ddyfalu pa fathau a faint i'w plannu. Ategwyd hyn gan sicrwydd defnyddiol gan y cyfanwerthwr y byddai'n prynu'r hyn na fyddai ysgolion yn ei brynu. Roedd y cyfanwerthwr hefyd wedi cael rhywfaint o gyllid i ddatblygu cynnyrch a allai ei alluogi i gymryd rhywfaint o'r cynnyrch dros ben.

Yn 2023 roedd y tyfwyr yn bwriadu tyfu amrywiaeth enfawr o lysiau ar gyfer ysgolion: tomatos bach melys, tomatos eirin (ar gyfer datblygu cynnyrch), wyau, ciwcymbr, ffenigl, seleri, ysgallddail amryliw, sbigoglys, courgettes, ffa Ffrengig, pys, betys, blodfresych, winwns, pwmpen cnau meny, bresych coch a chennin. Fodd bynnag, o ran yr hyn y mae Awdurdodau Lleol fel arfer yn ei brynu ar gyfer ysgolion, roedd y diffyg cyfatebiaeth yn amlwg. Ar hyn o bryd, anaml y mae ysgolion yn prynu seleri (sy'n alergen), ffenigl, ysgallddail, sbigoglys, bresych deiliog, asbaragws, pwmpenni cnau meny a radish. Y llysiau sy'n ymddangos ar y bwydleni'n rheolaidd yw Brocoli, moron, winwns, letys, ciwcymbr a thomatos. Felly nid oedd cyfatebiaeth rhwng y galw am y llysiau a dyfwyd a'r hyn yr oedd ysgolion am ei brynu. O edrych yn ôl, dywedodd y tyfwyr y byddent 'wedi plannu'r hyn y byddai'r Awdurdodau Lleol yn ei brynu, nid yr hyn y gallen ni ei dyfu.' Roedd llunio rhagolwg o'r galw a chynllun cnydau y cytunwyd arno gan y ddwy ochr cyn y tymor tyfu yn wers allweddol.

Y llysiau roedd yr Ysgolion eisiau

Amledd Isel

Brocoli
Moron
Winwns
Salad
Ciwcymbrau
Tomatos
Bety (wedi'i brosesu)
Pys (wedi'u rhewi)
Ffa gwyrdd (wedi'u rhewi)
Corn melys (wedi'i rewi)



Amledd Uchel

Bresych
Cenhinen
Sweden
Panas
Blodfresych
Planhigyn wy
Courgette
Puprau



Dim o gwbl

Seleri (alergen)
Pwmpen cnau meny
Ffenigl
Siard
Sbigoglys
Cêl
Asbaragws
Mange tout
Radis





Tywydd ac amodau tyfu heriol

Roedd 2023 yn un o'r tymhorau tyfu mwyaf heriol i'r tyfwyr ei weld erioed ac effeithiodd hyn ar bwysau cynydau ac felly ar incwm. Cynaeafwyd llai o gnydau nag a ragwelwyd. Roedd y tri thyfwr wedi bwriadu cyflenwi cyfanswm o 17 tonnall o lysiau ond mewn gwirionedd roedd hyn yn nes at un tonnall erbyn diwedd y tymor. Fe wnaeth y tywydd achosi oedi o ran y cynydau ac felly bu'n anodd cyflenwi llysiau i raglen yr haf Bwyd a Hwyl. Fe wnaeth rhai cynydau yn well nag eraill ac fe wnaeth rhai safleoedd yn well nag eraill. Roedd pob un o'r tyfwyr yn weddol newydd i'w safleoedd ac roedd eu profiad yn amrywio. Mae hyn yn mynd i fod yn nodweddiadol o'r math o dyfwyr sy'n ymuno â'r maes cynhyrchu yng Nghymru oherwydd bod y llinell sylfaen mor isel ac yn golygu bod **ymgorffori amser i ddysgu a datblygu safleoedd tyfu yn mynd i fod yn allweddol i ddatblygiad garddwriaeth yng Nghymru**. Mae newid hinsawdd yn golygu y gallwn ddisgwyl i dymhorau anodd ddigwydd yn amlach ac mae'r angen i ystyried y tebygolrwydd o hinsawdd afreolaidd a bod yn realistig ynghylch cynlluniau cynydau yn hollbwysig. Gwers allweddol arall a ddysgwyd oedd bod angen **cynyddu nifer y tyfwyr er mwyn cynyddu gwydnwch y cyflenwad**.



Mae angen Safon i Gyflenwyr sy'n Dyfwyr Graddfa Fach

Er mwyn i gyfanwerthwr gyflawni ei rwymedigaethau ar gyfer achrediad Consortiwm Manwerthu Prydain, sy'n rhoi sicrwydd i gwsmeriaid bod cynhyrchion yn ddiogel, yn gyfreithlon ac o ansawdd uchel, roedd angen i dyfwyr fynd drwy archwiliad diogelwch bwyd. Ystyriwyd safon ardystiedig y Tractor Coch ond nid oedd yn cyd-fynd â gofynion tyfwyr graddfa fach gan ei fod wedi'i greu ar gyfer cynhyrchwyr arbenigol mawr. Mae rhai o'r anawsterau ar gyfer tyfwyr graddfa fach gyda'r safon Tractor Coch yn cynnwys systemau mwy amrywiol a chymysg a'r baich anghymesur o uchel o ran cadw cofnodion a gwaith gweinyddol o gymharu â maint y busnes.

Felly, fe wnaeth Garddwriaeth Cyswllt Ffermio – Lantra, gyda chymorth arbenigwr¹⁴, ymgymryd â'r gwaith o ddatblygu Safon bwrpasol i Gyflenwyr sy'n dyfwyr graddfa fach. Yn ymarferol, cymerodd hyn amser ac egni i sicrhau ei fod yn iawn ac roedd y ffaith bod y Safon i Gyflenwyr sy'n Dyfwyr Graddfa Fach (Atodiad 1), sy'n gweithio ochr yn ochr ag ardystiadau fel yr ardystiad organig wedi dod i fodolaeth yn allbwn arwyddocaol ar gyfer 2023. Mae'r safon yn sicrhau diogelwch a'r gallu i olrhain cynnyrch. Yn ymarferol mae'n rhoi arweiniad ar bethau fel diogelwch ffynonellau dŵr ar gyfer dyfrhau, trin chydau, defnyddio compost ac ati. Yn 2024, datblygwyd ac archwiliwyd y Safon ymhellach ac mae wedi cael ei defnyddio gan randdeiliaid y tu allan i'r cynllun **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion**. Roedd rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y safon i gyflenwyr sy'n dyfwyr graddfa fach a chynlluniau Sicrhau Ansawdd eraill gan gynnwys y cynllun organig, SALSA a LEAF. Datblygwyd matrices trawsgydymffurfio ac fe'i defnyddiwyd i symleiddio'r Safon a'r Archwiliadau.

'Mae'r Safon i Gyflenwyr sy'n Dyfwyr Graddfa Fach yn bwynt gwerthu unigryw i alluogi tyfwyr i gyflenwi marchnadoedd eraill hefyd.'

Garddwriaeth Cyswllt Ffermio, Lantra.

¹⁴ ML3 Technical Services Limited <https://www.ml3technical.co.uk/>



Systemau trwsogl a'r angen am well cyfathrebu

Oherwydd mai dim ond nifer bach o dyfwyr oedd yn rhan o'r cynllun a bod symiau'r cyflenwadau'n fach, roedd systemau'n parhau i fod yn sylfaenol, yn cynnwys cyfathrebu drwy WhatsApp yn aml, ac nid oedd cynnyrch yn cael ei gasglu'n rheolaidd. Nid oedd sianeli cyfathrebu clir â rheolwyr arlwyio Awdurdodau Lleol wedi'u datblygu'n ddigonol ychwaith. Er bod y systemau'n gweithio i nifer bach o dyfwyr, roedd yn amlwg bod angen datblygu systemau trefnu a chyfathrebu gwell os oedd y prosiect yn cael ei ehangu.

Yr angen am hunaniaeth ar gyfer Llysiau o Gymru

Er mwyn sicrhau parhad yn y cyflenwad i ysgolion, lle nad oedd cynnyrch ar gael roedd y cyfanwerthwr wedi cytuno i ddisodli cynnyrch Cymreig lleol gyda chynnyrch arferol. Roedd y tyfwyr yn poeni y gallai cynnyrch nad oedd yn gynnyrch a dyfwyd ganddyn nhw, gael ei gysylltu â nhw ac y gallai hyn fod â goblygiadau i enw da'r prosiect, pe na baent yn cyrraedd y safon. Penderfynodd rhanddeiliaid fod angen hunaniaeth neu frand ar y cynllun **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion**. Yna gellid defnyddio'r brand hwn fel sticer ar gynnyrch yn y dyfodol gan helpu i'w adnabod a darparu'r gallu i'w olrhain.





Yr angen am degwch o ran ymarfer a phrisiau – newid i gynnyrch organig wedi'i ardystio

Roedd y cynllun peilot courgettes wedi nodi y dylai llysiau fod yn rhai 'amaeth-ecolegol', hynny yw, yn cael eu cynhyrchu gan ddefnyddio arferion sy'n anelu at weithio gyda bywyd gwyllt, lliniaru newid yn yr hinsawdd a rhoi pŵer i dyfwyr a chymunedau greu systemau sy'n gweddu orau i'w hanghenion (gweler yr [Adroddiad Courgettes](#)¹⁵). Er mwyn sicrhau bod y gwaith ychwanegol i wneud i hynny ddigwydd wedi'i gynnwys yn y prisiau a dalwyd, cymerodd y grŵp brisiau cyfanwerthu llysiau Cymdeithas y Pridd ar gyfer y flwyddyn flaenorol a chytunodd y peilot i dalu'r pris hwn am y tymor i ddod. Roedd hyn yn golygu bod y tyfwyr yn cael prisiau organig am y llysiau. Fodd bynnag, heb unrhyw wiriadau, roedd y tyfwyr yn pryderu, wrth i'r cynllun peilot ehangu, y gallai fod anghydraddoldeb rhwng y tyfwyr gyda rhai yn cadw at safonau organig ac eraill ddim, ond bod pawb yn cael yr un pris. Roedd pryder hefyd wrth i'r prosiect ehangu nad oedd unrhyw sicrwydd y byddai tyfwyr yn tyfu mewn modd amaeth-ecolegol, ac yn arwain at y buddion yr oedd y prosiect peilot yn eu hawlio. Nid oes ardystiad swyddogol o ddulliau amaeth-ecolegol.

Yn ystod hydref 2023, ar ôl llawer o drafod, penderfynodd y tyfwyr a grŵp llywio'r prosiect ei gwneud yn ofynnol i bob tyfwr sy'n bwriadu cyflenwi'r cynllun Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion fynd drwy ryw fath o broses ardystio organig gan mai dyma yr ystyriwyd oedd y ffordd fwyaf pragmataidd, syml a hygyrch i sicrhau bod cynhyrchiant ar ffermydd yn cadw at ddulliau organig.

¹⁵ Synnwyr Bwyd Cymru (2023) Peilot Courgettes





Roedd ymweliadau fferm yn syniad da ac roedd y plant yn eu mwynhau'n fawr ond roeddent yn cymryd llawer o amser i'w trefnu

Cynhaliwyd pedwar ar ddeg o ymweliadau ysgol â phedair fferm lysiau, a hynny yn Sir Fynwy, Sir Gaerfyrddin a Chaerdydd gyda thros 400 o blant yn cael y cyfle i ymweld â fferm lysiau.

Aeth deg ysgol a thros 300 o blant yn Sir Fynwy i ymweld â fferm Langtons ger Crucywel. Cafodd pob plentyn gyfle i blannu ychydig o winwns yn y twnnel polythen a chodi, golchi a bwyta moron. Cawsant hefyd fag o lysiau cawl a rysâit i fynd adref gyda nhw i'w coginio gyda'u rhieni. I lawer, dyma'r tro cyntaf iddynt ymweld â fferm lysiau ac roedd yr adborth yn hynod gadarnhaol, a dywedodd un plentyn wrth y ffermwr

'dyma'r daith orau i mi fod arni erioed!'

Yn Sir Gaerfyrddin ymwelodd tair ysgol â dwy fferm: Hooma Hu a Glasbren ac eto roedd yr adborth yn gadarnhaol gyda'r athrawon yn dweud 'Roedd y fferm yn wych a mwynhaodd y plant eu profiadau'n fawr. Yr unig anfantais oedd y tywydd, ond rhaid i ni gofio ein bod ni'n byw yng Nghymru' ac 'Roedd y daith yn anhygoel!! Roedden ni i gyd wrth ein bodd! Doedd y plant ddim eisiau gadael. Mae'r tyfwyr mor hyfryd ac ysbrydoledig ac roedd y plant wedi eu swyno'n llwyr. Roedd yn wych i'r plant gael cyfle i gwrdd â'r bobl sy'n tyfu llysiau a bod yno i weld y cyfan, fe wnaethon nhw ddysgu llawer o'r profiad.'





Ymwelodd un ysgol â Gardd Salad Caerdydd a bu'r tyfwr yn golchi a pharatoi amrywiaeth o ddail a blodau i'w blasu (yn ogystal â chiwcymbr) gan gynnwys Suran, Capan Cornicyll, Ysgallddail Amryliw, Berwr y Gerddi, Letys, Dail Mwstard, Mizuna, Glaswellt bwytdadwy. Fe wnaeth pob un o'r plant iau blasu rhywbeth ac roeddent yn gyffrous. Y peth mwyaf poblogaidd oedd y suran a chawsom ymatebion fel *'Mae'n blasu fel afal!'* ac *'Mae mor felys ac wedyn yn sur'*. Roedd y grŵp hŷn ychydig yn fwy amharod i blasu'r dail, ond ar ôl i ambell un fentro, buan iawn yr ymunodd y gweddill. Dywedodd un bachgen gyda balchder, *'Dw i ddim wedi blasu dim byd, o na'*, ond ran o'r ffordd drwy'r sesiwn penderfynodd blasu'r suran. Dywedodd un arall

'Fe wnes i blasu pob un ond doeddwn i ddim yn hoffi unrhyw un ohonyn nhw heblaw am y blodyn. Roedd hwnnw'n flasus iawn'

a dywedodd un arall *'Mae'n afiach'* ac meddai un arall *'efallai fy mod i'n hoffi hwn'*. Rhoddodd ychydig o blant ddail salad yn eu pocedi i fynd adref gyda nhw a dweud *'Rwy'n mynd â'r un yma adref i mam ei blasu [er mwyn ei synnu]'* a *'ble allwch chi brynu'r salad yma? Rwy'n bendant yn mynd i edrych i mewn i hyn ar ôl cyrraedd gartref.'*

Mae ymweliadau fferm fel petaent yn rhoi cyfle i ysbrydoli plant i roi cynnig ar rywbeth newydd, gartref ac yn yr ysgol. Nododd rheolwr arlwygo fod *'plant yn bwyta pethau ar fferm na fydden nhw'n eu bwyta yn yr ysgol'* a soniodd cydlynnydd Bwyd a Hwyl am un ferch gan ddweud *'...cyn Bwyd a Hwyl, roedd hi ond yn bwyta bwyd sych i ginio. Rydyn ni wedi bod yn blasu llawer o bethau dros yr wythnosau diwethaf ac mae hi nawr yn bwyta cinio ysgol. Mae hi'n mynd i gael cinio ysgol ym mis Medi. Rydyn ni'n ei galw hi'n seren oherwydd faint o lysiau mae hi wedi bod yn eu blasu.'*





Chwaraeodd y Partneriaethau Bwyd Lleol ym mhob ardal ran yn y gwaith o drefnu'r teithiau a gymerodd gryn amser i'w cydlynu. Cynhaliwyd asesiadau risg a datblygwyd arferion da.

Mae trefnu ymweliadau fferm yn cymryd amser ac arian (tua £700 fesul ymweliad fferm ar gyfer dosbarth o 35 o blant) ond mae'n hynod werthfawr o ran ysbrydoli a dylanwadu ar blant i flasau llysiau. Oherwydd cyfyngiadau amser ac arian a'r angen i'r cynllun Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion ganolbwyntio ar roi trefn ar yr ochr gyflenwi a logisteg, ni chafodd unrhyw ymweliadau fferm a gweithgareddau cyfyngedig eu hymgorffori yn 2024 ond mae'r gwaith hwn yn parhau i fod yn bwysig a dylid cefnogi Partneriaethau Bwyd Cynaliadwy, ysgolion a thyfwr i helpu i wneud i hyn ddigwydd yn y dyfodol.





Datblygu cynnyrch

Nid oedd llawer o'r cynnyrch a dyfwyd yn 2023 yn addas ar gyfer ysgolion a defnyddiwyd rhywfaint o'r cynnyrch hwn i ddatblygu cynnyrch gyda'r Authentic Curry Company yn Hirwaun, un o brif bartneriaid y cwmni cyfanwerthu Castell Howell. Roedd hyn yn cynnwys blodfresych ar gyfer blodfresych caws i'w weini mewn ysgolion, gyda bresych deiliog ac ysgallddail wedi'i ychwanegu ato a thomatos eirin a gafodd eu troi'n sawsiau gydag ysgallddail a bresych deiliog.

Defnyddiwyd blodfresych Bonvilston Edge i wneud blodfresych caws. Ar ôl eu prosesu, dim ond 40% o gynnyrch a gafwyd o'r blodfresych ac roedd llawer o wastraff. Mae potensial o hyd i ddefnyddio mwy o rannau o'r blodfresych, fel y coesyn a rhywfaint o'r dail i leihau gwastraff a chynyddu cynnyrch.

Roedd y cynhyrchion ychydig yn wyrddach nag y gallai plant fod yn gyfarwydd ag ef, ffactor a allai effeithio ar eu dewis, ond dangosodd dadansoddiad maethol ganlyniadau cadarnhaol. Roedd y sawsiau tomato, o'u cymharu â sawsiau safonol y diwydiant, yn cynnwys llai o siwgr a mwy o ffeibr.





Roedd y blodfresych caws, o ychwanegu bresych deiliog ac ysgallddail ato, yn cynnwys lefelau uwch o ffeibr, sinc a haearn (Gweler Atodiad 2). Roedd y canfyddiadau hyn yn dangos bod safonau maeth bwyta'n iach yn cael eu bodloni mewn perthynas â braster, braster dirlawn, siwgr anghynhenid nad yw'n deillio o laeth a sodiwm, a'r safon ofynnol ar gyfer carbohydrad, protein, ffibr, fitamin A, fitamin C, ffolad, calsiwm, haearn a sinc¹⁶.

Yn 2024, parhawyd â'r gwaith hwn gan Castell Howell ac Authentic Curry a gyfunodd domatos, bresych deiliog ac ysgallddail i greu saws ac ychwanegwyd codlysiau at beli cig yn ogystal â llysiau ychwanegol.

Mae Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Safonau a Gofynion Maeth) 2013¹⁷ yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd ac felly mae'r gwaith ar ddatblygu cynnyrch wedi'i oedi nes bod y gofynion newydd wedi'u cadarnhau. Mae potensial enfawr o hyd i ymestyn y tymor ar gyfer cynnyrch Cymreig a defnyddio llysiau sy'n tyfu'n dda yng Nghymru ond nad yw plant yn eu bwyta ar hyn o bryd, fel bresych deiliog ac ysgallddail, ac wrth wneud hynny, mae angen gwella ansawdd maeth mewn amgylchiadau pan fo angen defnyddio prydau parod.

'Ni allaf orbwysleisio pa mor bwysig yw'r prosiectau hyn, o ran datblygu'r gadwyn gyflenwi, ysgogi datblygu cynnyrch a darparu mwy o gynnyrch Cymreig i ysgolion Cymru.'

Cyfanwerthwr.

¹⁶ Llawlyfr Dadansoddi Maeth CLILC yn seiliedig ar Reoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013

¹⁷ Deddfwriaeth.gov.uk (2013) Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013





2024 Cydgrynhoi'r hyn a ddysgwyd

'Pan ddaeth pwysau ar stoc â'r prosiect yn fyw'

Cyfanwerthwr

Ar ôl dysgu gwersi drwy brofiad yn 2023, aeth y tyfwyr a phartneriaid prosiect eraill ati i weithio i roi'r hyn a ddysgwyd ar waith ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Recriwtiwyd mwy o dyfwyr a chynyddodd y nifer i wyth ac roedd modd i'r prosiect ddechrau cynllunio'n gynt o ganlyniad i sicrhau'r cyllid angenrheidiol mewn modd amserol.

Cynllunio'r gaeaf cyn y tymor tyfu a sicrhau bod y mathau o lysiau yn iawn

Dechreuodd blwyddyn 2024 gyda chyfarfod aml-randdeiliaid yn Sir Gaerfyrddin ym mis Tachwedd 2023, yn dilyn Uwchgynhadledd Llysiau Cymru, a drefnwyd i ddathlu llwyddiannau Pys Plis dros y pum mlynedd diwethaf. Yn y cyfarfod hwn, pennodd Awdurdodau Lleol a Phartneriaethau Bwyd Cynaliadwy y mathau o lysiau yr hoffent eu prynu ac fe wnaeth y tyfwyr awgrymu rhai yr hoffent eu tyfu. Ffurfiwyd rhestr gyfaddawdu fel sail ar gyfer cynllunio cnydau yn y dyfodol. Ar hyn o bryd dim ond syniad o'r niferoedd yr oedd eu hangen a gafwyd gan yr Awdurdodau Lleol, fodd bynnag, roedd hwn yn gam sylweddol ymlaen i'r prosiect.





Mathau o lysiau a syniad o'r symiau:

Llawer o: foron, brocoli, tomatos, letys a chiwcymbrau

Llai o: winwns, cennin, courgettes

Ar gyfer datblygu cynnyrch: pwmpenni cnau menyf, bresych deiliog, ysgallddail, blodfresych



Creu cynllun cnydau ar y cyd

Ar ôl ymgysylltu â llawer o dyfwyr, ac ar ôl cefnogi'r rhai a oedd am gymryd rhan i fynd drwy'r Safon i Gyflenwr sy'n Dyfwyr Graddfa Fach a chofrestru ar gyfer ardystiad organig, yn y pen draw ymrwymodd wyth tyfwr i'r cynllun cnydau. Gweler Atodiad 3 am enghraifft o gynllun cnydau.

Roedd y broses cynllunio cnydau hon yn allweddol. Bwriadwyd tyfu cyfanswm o tua 40 tunnelli o lysiau drwy wyth tyfwr. Yna defnyddiwyd cynllun blyneddol fel sail i greu cynllun o wythnos i wythnos. Roedd rhai cnydau'n anoddach nag eraill o ran cael tyfwyr i ymrwymo i'w tyfu - moron yn un ohonynt. Yn ffodus, penderfynodd tyfwr a oedd wedi tyfu moron organig 18 mlynedd yn ôl ar gyfer archfarchnadoedd ymuno â ni. Fel y digwyddodd, fe wnaeth moron a'r symiau a gynhyrchwyd roi systemau **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** ar brawf yn fwy nag unrhyw lysiau eraill, fel y trafodir yn y prif adroddiad.

'Nid yw cilogramau'n rhoi'r system dan bwysau ond mae tunelli'n gwneud hynny'

Cyfanwerthwr

Archwilio'r Safon i Gyflenwyr sy'n Dyfwyr Graddfa Fach

Cefnogodd Garddwriaeth Cyswllt Ffermio dyfwyr drwy'r Safon i Gyflenwyr sy'n Dyfwyr Graddfa Fach a chynhaliwyd archwiliad o bob tyfwr i sicrhau bod pob busnes yn cydymffurfio â'r safon. Roedd cael proses o wirio agweddau iechyd a diogelwch yn bwysig iawn ac yn rhoi sicrwydd i'r cyfanwerthwr eu bod yn darparu'r llysiau gorau a mwyaf diogel i ysgolion ac nad oeddent mewn perygl o roi eu hachrediad Consortiwm Manwerthu Prydain yn y fantol.





Datblygu systemau logisteg

Fe wnaeth DTA Cymru, a oedd hefyd wedi cael Cyllid o'r Gronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith yn ymwneud â chaffael bwyd, gefnogi'r prosiect i ddatblygu system gyfathrebu rhwng y tyfwyr a'r cyfanwerthwr. Roedd y system hon yn rhan annatod o'r prosiect gan alluogi troi'r cynllun cnydau'n gynllun wythnosol lle roedd tyfwyr yn gallu diweddarau'r symiau a ragwelwyd ar gyfer yr wythnos honno i adlewyrchu'r symiau gwirioneddol a oedd ar gael i'w casglu. Yn ymarferol, roedd hyn yn cynnwys llawer o gyfathrebu a gwthio am rifau ac mae angen datblygu system symlach o hyd.

Pan oedd y cyfanwerthwr yn gwybod faint o lysiau a oedd ar gael, trefnwyd i'w casglu ar hyd y llwybrau. Yna roedd gyrwyr yn casglu'r llysiau ar eu ffordd yn ôl o ddanfôn nwyddau gan leihau nifer y teithiau a chwtogi ar yr allyriadau carbon. Gwnaeth y cyfanwerthwr 92 o gasgliadau yn 2024. Mewn rhai achosion, fel pan oedd y symiau o foron yn ormod ar gyfer y faniau arferol, roedd yn rhaid trefnu teithiau arbennig i'w casglu.

Yn ymarferol roedd hyn yn golygu amser gweinyddol i'r cyfanwerthwr ac mae angen ystyried capasiti a gwell systemau cyfathrebu er mwyn galluogi hyn i ddigwydd yn y dyfodol wrth i swm y llysiau a nifer y tyfwyr gynyddu.





Datblygu'r Brand

Arweiniodd Garddwriaeth Cyswllt Ffermio ddatblygiad y brand **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** gyda mewnbwn gan dyfwyr a chefnogaeth gan Synnwyr Bwyd Cymru. Crëwyd y brand ac roedd yn barod mewn pryd ar gyfer yr Haf a'r Hydref a'r adeg pan oedd y llysiau'n cael eu dosbarthu i'r ysgolion. Cynhyrchwyd sticeri i'w rhoi ar y bagiau/bocsys llysiau i ddangos i'r staff arlwyo pa llysiau oedd yn rhan o'r peilot. Defnyddiwyd y brand hefyd ar gyfer cyfathrebu cyffredinol ac ar gyfer y pamffled a gynhyrchwyd i'w ddosbarthu yn Sioe Frenhinol Cymru. Roedd cefnogaeth Garddwriaeth Cyswllt Ffermio i ddatblygiad y brand yn hollbwysig.



Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion

YN CYNNWYS MWY O LYSIAU ORGANIG WEDI'U CYNHYRCHU YNG NGHYMRU MEWN PRYDAU YSGOLION CYNRADD AR HYD A LLED CYMRU

Ar hyn o bryd mae swm sylweddol o'r llysiau sy'n cael eu gweini mewn ysgolion yng Nghymru wedi'u rhewi a daw'r mwyafrif ohonynt (94%) o'r tu allan i Gymru. Daw llawer o fwrp o wledydd sydd dan fygythiad oherwydd y newid yn yr hinsawdd ac nid oes dim ohonynt yn organig.

Mae Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion yn newid hynny.

Mae'r cynllun peilot hwn yn galluogi'r cynllun Prydau Ysgol Am Ddim a oriennir gan Lywodraeth Cymru i gefnogi tyfwyr a ffermwyr o Gymru i ehangu eu cynhyrchiant a chyflogaeth

AR HYN O BRYD...



yng Nghymru mewn ffordd gynaliadwy, yn ogystal â chynyddu cydnerthedd, cwtogi carbon, cynyddu bioamrywiaeth a chyfrannu at gyfrifoldeb byd-eang Cymru ar yr un pryd.

Mae **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** yn cydnabod bod prynu llysiau cynaliadwy a chydnerth o Gymru yn ddrutach ac mae'n talu'r gwahaniaeth rhwng y pris uwch hwnnw a'r pris a delir gan Awdurdod Lleol fel arfer. Mae'n dibynnu ar gyfranwerthwyr sydd â chontractau cyfrndol ag Awdurdodau Lleol i hyrwyddo'r cysylltiad rhwng tyfwyr organig ac ysgolion. Mae creu'r farchnad ddiogel hon wedi lleihau'r risg i dyfwyr ac yn galluogi'r sector i ehangu, gan greu cyfleoedd i fanteisio ar effeithlonrwydd maint a chydweithio.



Manteision i'r economi leol: Swyddi ac arian

Mae cynhyrchu ffrwythau a llysiau yn fusnes cynhyrchol iawn ac yn gallu creu rhwng £15,000 ac £80,000 yr hectar*, ar gyfer tyfu ar raddfa caeau ac ar raddfa caeau yn ogystal â chynhyrchu twnelau polythen, gyda chyfartaledd o £50,000 yr hectar.

Mae'r rhan fwyaf o'r incwm hwnnw (oddeutu 80%) yn mynd tuag at greu swyddi, oddeutu tair ar gyfer pob hectar*, o gymharu ag o dan un ar gyfer pob hectar ar gyfer y fferm arferol yng Nghymru*.

Gallai cyflenwi llysiau o Gymru i bob ysgol gynradd yng Nghymru greu bron i 1000 o swyddi newydd ar ffermydd a chreu gwerthiant o bron i £15 miliwn*.



£50k/ha
= 3 swydd



£163/ha
= 1 swydd

Manteision i'r amgylchedd: Pam cynnyrch organig?

Mae **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** yn talu mwy i dyfwyr am eu llysiau gan eu bod yn darparu gwerth cymdeithasol ac amgylcheddol drwy eu dulliau cynhyrchu. Rydym yn gofyn am ardstiad organig er mwyn i ni allu gwarantu'r manteision hynny i Awdurdodau Lleol a phlant ysgol. Dyma rai o fanteision cynhyrchu 40 tunnell o llysiau organig yn lleol o gymharu â'r un faint o llysiau anorganig arferol neu gyflenwad lleol anorganig. Mae hyn cyn i chi ystyried bod llawer o'r llysiau sy'n cael eu gweini mewn ysgolion wedi'u rhewi a bod eu holl troed carbon hyd yn oed yn uwch:



Y weledigaeth:

Dros y pum mlynedd nesaf rydym yn awyddus i ymestyn y cynllun peilot o 8 i 100 o dyfwyr, er mwyn creu gwerthiant o £1.5 miliwn y flwyddyn, sy'n gyflwyno â budd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol gwerth £12.4 miliwn. Byddai hyn yn cynyddu gwerthiant organig lleol i oddeutu 10% o gyfanswm y llysiau a brynir ar gyfer ysgolion ac yn arbed oddeutu 60 tunnell o CO₂e bob blwyddyn a hynny cyn ystyried disodli llysiau wedi'u rhewi sydd ag ôl troed uwch byth.





Problemau tywydd yn parhau

Cafodd gaeaf gwlyb 2023/4, gwanwyn gwlyb iawn yn 2024, amodau gwlyb ac oer yn ystod haf 2024 a lefelau isel o olau yn gyffredinol nifer o effeithiau. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Amodau gwlyb yn y gwanwyn, a oedd yn golygu nad oedd modd trin y tir mewn modd amserol. Roedd hyn yn ei dro yn golygu nad oedd modd cwblhau rhai o'r camau rheoli chwyn, a arweiniodd at lawer o waith i ymdrin â chwyn yn ddiweddarach yn y tymor
- Yn sgil amodau gwlyb, bu'n rhaid oedi cyn plannu rhai cynydau
- Arweiniodd amodau gwlyb ac oer yn ystod yr haf at dyfiant araf/gwan. Roedd hyn yn golygu bod planhigion yn fwy agored i ymosodiad gan blâu a chlefydau. Arweiniodd cyfuniad o hyn ac amodau a oedd yn ddelfrydol i wllthod at ddifrod sylweddol gan wllthod yn arbennig, a chollwyd llawer o gnydau'n gyfan gwbl
- Mae lefelau isel o olau hefyd yn arafu'r broses aeddfedu e.e. cnydau tomatos



Nid oedd y materion hyn yn unigryw i Gymru, nac yn wir i arddwriaeth. Pwysau cnydau y DU yn 2024 oedd yr ail isaf ers i ddata ddechrau cael ei gasglu ar gyfer y DU gyfan. Er mai un tymor oedd hwn, mae'n rhan o ddarlun ehangach o amodau mwy eithafol yn sgil newid hinsawdd dros y 15 – 20 mlynedd diwethaf gan gynnwys [glawiad dwys, glawiad cyfartalog uwch, sychder a stormydd amlach](#)¹⁸. Arweiniodd hyn at bwysau cnydau a chynhaeaf llawer llai ar gyfer 2024, dim ond 36% o'r hyn a ragwelwyd: 15,824 o unedau/14 tunnell o gymharu â 40 tunnell.

¹⁸ Tony Little (2024)



Gwelwyd effeithiau gwahanol ar dyfwyr ac mewn rhannau o Gymru. Methodd rhai cnydau mewn rhai ardaloedd a gwnaeth cnydau eraill yn dda mewn rhannau eraill o Gymru, gan amlygu manteision cael mwy o dyfwyr wedi'u gwasgaru ledled Cymru. Amlygwyd hefyd y dylai tyfwyr greu cynllun cnydau sydd mor realistig â phosibl y flwyddyn nesaf, gan ystyried amrywiadau tebygol yn y tywydd.

Y symiau a'r mathau o lysiau a brynwyd gan gyfanwerthwr yn 2024

Llysiau	Math	Y Swm Disgwyliedig	Y Swm a Brynwyd	Y Gwahaniaeth	% y cnwd a gyflenwyd
Moron (Kg)		11,800	9,306	2,870	79%
Tomatos (Kg)	Bach Melys	2,025	835	1,190	41%
	Salad	1,925	515	1,410	27%
	Eirin	1,500	100	1,400	7%
Winwns, gwyn (Kg)		3,000	242	2,758	8.
Brocoli (Kg)		8,100	1,478	6,622	18%
Cennin (Kg)		1,000	48	952	5%
Courgettes (Kg)		1,000	277	723	28%
Sboncen (Kg)		1,000	97	903	10%
Ysgallddail (Kg)		300	52	248	17%
Bresych Deiliog (Kg)		300	118	182	39%
Letys (unedau)	Sakura	3,500	437	3,063	12%
Ciwcymbr (unedau)		7,500	2,319	5,181	31%
Blodfresych (unedau)		450	-	450	0%
CYFANSWM		43,400	15,824 o unedau	27,952	% y cnwd a gyflenwyd yn gyffredinol 36%



Mwy o amser i gyfanwerthwyr ac Awdurdodau Lleol

Ar ôl eu cynaeafu, cyrhaeddodd y llysiau'r cyfanwerthwr a dyrannwyd cod llysiau o Gymru iddynt a gafodd ei anfon ymlaen at Awdurdodau Lleol. Yn ymarferol, digwyddodd hyn mewn ffordd ad hoc ond yn ddelfrydol dylai'r codau hyn fod wedi cael eu cynhyrchu ymlaen llaw. Roedd hyn yn golygu tipyn o amser gweinyddol ychwanegol i'r cyfanwerthwr.

Oherwydd nad oedd digon o lysiau ar gyfer yr holl ysgolion mewn Awdurdod Lleol, dewiswyd ysgolion penodol i dderbyn y llysiau. Dewiswyd y rhain ar y sail bod y staff arlwyyo yn gallu delio â'r gwaith gweinyddol ychwanegol a'r gwaith ychwanegol posibl sy'n gysylltiedig â llysiau Cymreig e.e. torri brocoli a chael gwared ar y coesyn yn lle agor pecynnau o frocoli wedi'u rhewi.

Oherwydd bod y symiau o llysiau Cymreig yn codi a gostwng, yn ymarferol, roedd yn rhaid i reolwyr arlwyyo dreulio amser yn dyrannu llysiau i wahanol ysgolion a chael gwahanol ysgolion i archebu'r llysiau. Nid oedd hyn bob amser yn bosibl oherwydd diffyg capasiti. Yn ddelfrydol, ymhen amser, bydd y symiau a'r gallu i ragweld yn cynyddu a bydd systemau'n datblygu ymhellach i leihau gwaith ar gyfer rheolwyr arlwyyo a staff arlwyyo.

Lle y disgwyliwyd cnwd ond nad oedd ar gael, roedd yn rhaid i'r ysgolion ddychwelyd i ddefnyddio'u cyflenwad arferol. Os mai Castell Howell oedd y cyflenwr arferol, nid oedd hyn yn broblem ond mewn achosion eraill, roedd yn rhaid gwneud trefniadau eraill gyda'r cyfanwerthwr arferol. Cynyddodd hyn yr amser gweinyddol i reolwyr arlwyyo a oedd eisoes dan bwysau. Pe na bai'r cnwd Cymreig ar gael, byddai gwell systemau amnewid yn ddefnyddiol, yn ogystal â mwy o gyfranogiad gan gyfanwerthwyr eraill.





Yr angen am well amseru a rhagolygon cynaeafu cnydau mwy manwl gywir

Roedd patrwm cyffredinol y cynaeafu a symud y cynnyrch drwy'r system rywbeth yn debyg i hyn, er ei fod yn amrywio:

Llysiau'n cael eu cynaeafu gan y tyfwr ddydd Mercher/Iau

Llysiau'n cael eu casglu gan y cyfanwerthwr ddydd Iau/Gwener

Llysiau'n cael eu harchebu gan ALLau ddydd Iau/Gwener

Llysiau'n cael eu storio gan y cyfanwerthwr ac yn y warws a'u pacio ddydd Sadwrn/Sul

Llysiau'n cael eu dosbarthu i ysgolion ddydd Llun/Mawrth/Mercher

Roedd hyn yn golygu y byddai rhai llysiau'n cael eu storio am wythnos cyn iddyn nhw gyrraedd ceginau'r ysgol, lle y byddai'n rhaid eu storio wedyn am ychydig ddyddiau'n rhagor. Yn ddelfrydol, byddai'r amseru'n symlach er mwyn lleihau'r amser y mae llysiau'n aros yn y storfeydd. Byddai hyn yn dibynnu ar ragolygon cynaeafu mwy cywir:

Llysiau'n cael eu cynaeafu gan y tyfwr ddydd Iau/Gwener

Llysiau'n cael eu casglu gan y cyfanwerthwr ddydd Gwener

Llysiau'n cael eu harchebu gan ALLau ddydd Gwener

Llysiau'n cael eu storio yn adeiladau'r cyfanwerthwr ddydd Sadwrn

Archebion llysiau'n cael eu pacio ddydd Sul

Llysiau'n cael eu dosbarthu i ysgolion ddydd Llun



Moron budr a'r angen am gyfleusterau golchi ar y fferm

Mae'r rhan fwyaf o gnydau yn weddol syml i'w casglu a'u pacio yn barod i'w hanfon i geginau, fel ciwcymbr, tomatos, letys a courgettes. Ond mae'n rhaid i unrhyw gnydau gwreiddlysiau sy'n debygol o fod â phridd arnynt gael eu golchi allan ar y caeau, gan fod arlwywyr ysgol eisiau atal pridd rhag dod i mewn i geginau. Yn yr [Adroddiad Courgettes](#)¹⁵ nodwyd "y cyfan sydd ei angen ar bob cyfanwerthwr yw'r cyflenwad a'r gallu i dalu rhagor am y cynnyrch." Roedd cynnydd yn swm y moron yn profi nad oedd hyn yn hollol wir a bod lefel o seilwaith ar goll i gyflenwi swm sylweddol o gnydau gwreiddlysiau yng Nghymru.

Cynaeafwyd bron i naw tunnell o foron ar gyfer y prosiect ac nid oedd gan y prif dyfwr gyfleusterau golchi ar y safle. Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid chwilio am gyfleusterau golchi yn rhywle arall cyn i'r moron fynd i geginau ysgol.

Yn ymarferol, roedd hyn yn golygu gyrru moron wedi'u cynaeafu yn ôl i ddepo'r cyfanwerthwr (gyda cherbyd arbennig gan fod y llwyth yn rhy drwm i gerbydau dosbarthu nwyddau arferol) i'w storio cyn eu cludo i safle arall lle roedd cyfleusterau golchi moron ar gael. Roedd y moron yn cael eu golchi a'u rhoi mewn bagiau ac yna'n cael eu cludo yn ôl i'r depo i gael eu storio cyn cael eu harchebu. Creodd hyn fwy o swyddi ond ychwanegodd lawer iawn o amser a chost yn gysylltiedig â'r moron. Ychwanegwyd cyfanswm o 21c y kg ar gyfer casglu moron, o'i gymharu â 4c y kg ar gyfer casglu llysiau eraill wrth ddychwelyd o'r llwybr dosbarthu, ac ychwanegwyd 24c y kg yn ychwanegol ar gyfer golchi a bagio moron.

Yn y dyfodol, er mwyn cynyddu effeithlonrwydd a lleihau costau, mae angen i dyfwyr gwreiddlysiau sy'n cyflenwi **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** fod â pheiriannau golchi moron ar y safle. Mae'r rhain yn costio tua £10,000 yr un. Byddai ychwanegu peiriannau bagio awtomataidd yn golygu y gallai moron gael eu bagio ar y safle yn fwy manwl gywir ac yn fwy effeithiol. Byddai mwy o waith ymchwil a dysgu gan eraill sy'n cyflenwi'r diwydiant arlwyo ar raddfa fawr mewn gwledydd eraill yn fuddiol er mwyn cynyddu effeithlonrwydd.





Costau ychwanegol i'r cyfanwerthwr – isafswm archebion, bagiau mwy

Oherwydd bod y cyfanwerthwr yn ceisio bod mor gefnogol â phosibl i bob un o'r tyfwyr dan sylw, ni osodwyd unrhyw isafswm pwysau ar gyfer archebion. Er mwyn lleihau costau, lleihau gwastraff yn sgil deunydd pacio, gwella effeithlonrwydd a symleiddio logisteg, argymhellodd y cyfanwerthwr isafswm archeb o 20kg yn y dyfodol, hyd yn oed os cânt eu casglu am yn ail wythnos yn hytrach nag yn wythnosol.

Moron – dim sleisio a deisio

Mae Awdurdodau Lleol yn aml yn prynu llysiau parod oherwydd cyfyngiadau amser a chapasiti mewn ceginau. Mae hyn yn wir yn aml ar gyfer moron. Rhagwelwyd y byddai Castell Howell yn anfon moron i gwmni cyfagos i'w sleisio a'u deisio. Ar ôl i'r moron gael eu golchi, fe'u hanfonwyd i'w sleisio a'u deisio fel prawf. Oherwydd bod y moron o wahanol feintiau ac yn llai na'r math arferol, cawsant eu malu wrth gael eu rhoi drwy'r cyfarpar a dim ond 40% o gynnyrch a gafwyd. Nid oedd y lefel hon o wastraff yn dderbyniol ac roedd yr opsiwn yn amlwg yn anymarferol, gan olygu nad oedd moron wedi'u sleisio a'u deisio ar gael i Awdurdodau Lleol yn 2024.

Mantais moron heb eu golchi yw eu bod yn cadw am hyd at 6 mis mewn storfa briodol, ond mae lle a chost, ac ystyriaeth amgylcheddol i hyn. Mae moron wedi'u golchi yn cadw am hyd at fis ond dim ond am bedwar diwrnod y mae moron wedi'u sleisio yn cadw. Drwy sleisio moron, heb eu rhewi, mae'r oes silff hefyd yn cael ei leihau'n sylweddol.



Fodd bynnag, nid oedd moron cyfan wedi'u golchi, yr oedd angen eu prosesu mewn ceginau, mor ddymunol oherwydd cyfyngiadau yng ngheginau ysgol ac roedd diffyg galw amdanynt. Y wers yma oedd bod angen i foron ar gyfer ceginau ysgol fod yn fwy ac yn fwy unffurf o ran maint a bod angen datblygu mwy o fanyleb fel y gellir eu prosesu'n haws mewn ceginau ac mewn cyfleusterau sleisio a deisio pwrpasol.

Mwy o fanylebau

Tynnodd y sefyllfa gyda'r moron sylw at yr angen i ddatblygu manylebau sy'n diwallu anghenion tyfwyr, cyfanwerthwyr ac arlwywyr, ac argymhellwyd bod Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion yn datblygu manylebau mwy manwl ond gan sicrhau eu bod yn cael eu harwain gan anghenion y tyfwyr. Byddai hyn, gobeithio, yn sicrhau ansawdd, yn symleiddio'r gwaith prosesu, yn lleihau gwastraff ac yn gwella effeithlonrwydd cyffredinol. Byddai hefyd, gobeithio, yn lleihau costau llafur, gan y byddai llai o amser yn cael ei dreulio yn didoli a graddio cynnyrch.

Penderfynodd un Awdurdod Lleol ganolbwyntio ar ddisodli brocoli wedi'i rewi gyda brocoli ffres. Roedd brocoli ffres, o'i gymharu â brocoli arferol wedi'i rewi, yn cymryd mwy o amser i'w baratoi, roedd hefyd yn golygu prynu'r coesyn yn ogystal â phen y brocoli. Gallai'r coesyn, na fyddai'n cael ei brynu fel arfer, gael ei gynnwys mewn prydau â saws fel bolognaise, ac roedd yr Awdurdod Lleol yn ymchwilio i ryseitiau. Opsiwn arall oedd i'r fanyleb newid ac i'r brocoli ddod heb y coesyn. Trafodwyd hyn mewn cyfarfod amlranddeiliad ac roedd tyfwyr yn gallu cadarnhau'n gyflym y byddai modd gwneud hyn, ond byddai oes silff y brocoli yn lleihau i ddau ddiwrnod ac felly efallai y byddai mwy o wastraff.

Gall rhai o'r gwersi hyn ymddangos yn amlwg i'r rhai sydd eisoes yn gweithio yn y sector cyflenwi llysiau ond roedd y rhain i gyd yn newydd i'r rhanddeiliaid dan sylw ac yn newydd i'r gadwyn gyflenwi esblygol sydd ei hangen yng Nghymru. Argymhellir pwysu a mesur a dysgu oddi wrth eraill wledydd eraill.





Yr angen am fwy o seilwaith ar ffermydd a grantiau bach

Yn ogystal â pheiriannau golchi ar gyfer cnydau gwreiddlysiau ar ffermydd, mae angen mwy o siediau pacio, twneli polythen a systemau dyfrhau hefyd. Er mwyn hwyhau bywyd y llysiau sy'n cael eu casglu yn y caeau, byddai storio llysiau mewn tymheredd amgylchol o 4-10 gradd ar gyfer tomatos, ciwcymbr, pupurau, courgettes a moron hefyd yn helpu, yn ogystal â chyfleusterau storio oer (2-4 gradd) ar gyfer brocoli, blodfresych a letys.

Rhoddodd Castell Howell, y cyfanwerthwr, £2,500 i bob tyfwr, o'i ymddiriedolaeth elusennol, fel grantiau bach tuag at gostau seilwaith ac roedd hwn ar gael ar ôl i gyflenwyr gyrraedd y safon. Cyflwynodd pob tyfwr ffurflen syml yn manylu ar yr eitemau y gofynnwyd amdanynt a chymeradwywyd y grantiau gan y cyfanwerthwr ac is-bwyllgor bach. Defnyddiwyd y grantiau ar gyfer twneli lindys i amddiffyn cnydau, systemau dyfrhau a hidlwyr dŵr (i gydymffurfio â'r Safon i Gyflenwyr), costau tuag at dwnnel polythen, lloches maes gyda chyfleusterau ac offer golchi. Bu'r rhain o gymorth mawr i dyfwyr fuddsoddi yn y seilwaith sydd ei angen ar gyfer uwchraddio a bodloni safonau diogelwch. Fel arfer, mae rhoi grantiau bach i dyfwyr yn ffordd effeithlon o fuddsoddi mewn seilwaith penodol sydd ei angen i uwchraddio a gall gael effaith fawr ar gynhyrchiant, cynnydd o bron i **75% ar gyfer tyfwyr graddfa fach**¹⁹.

¹⁹ Synnwyr Bwyd Cymru (2022) Cynllun Peilot Grantiau Cymorth Bach i Fusnesau Cynnyrch Garddwriaethol Bwydadwy





Digwyddiadau a Chyfathrebu

Roedd y cyhoeddusrwydd allweddol ar gyfer y cynllun **Llyisiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** yn 2024 yn cynnwys presenoldeb cryf yn y pentref Garddwriaeth newydd yn Sioe Frenhinol Cymru a chroesawu Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i'r stondin. Mae aelodau o dîm **Llyisiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** hefyd wedi gwneud cyflwyniad mewn digwyddiadau proffil uchel megis cynhadledd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) Cymru, cynhadledd ranbarthol Cymdeithas Arlwy Awdurdodau Lleol (Cymru) a Chynhadledd Gwir Fwyd a Ffermio Cymru. Mae'r prosiect yn parhau i gael sylw yn y cyfryngau ac yn ystod y 12 mis diwethaf, mae **Llyisiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** wedi ymddangos ar raglenni fel Country Focus ar BBC Radio Wales; rhaglenni newyddion ar BBC Radio Wales a BBC Radio Cymru, BBC Wales Today a Newyddion yn ogystal â Farming Today ar BBC Radio 4, Ffermio (S4C) ac mewn cyhoeddiadau fel Farmer's Weekly.

Mae cyfathrebu effeithiol a rhannu negeseuon allweddol wedi helpu i godi proffil y prosiect; ennyn diddordeb y gymuned amaethyddol ac wedi dal sylw mwy o Awdurdodau Lleol. Argymhellir bod yr agwedd hon yn parhau.





Mae angen mwy o waith ymgysylltu ac ymweliadau fferm ar gyfer ysgolion a phlant

chyllid ni threfnwyd ymweliadau fferm gan ysgolion yn 2024 ac roedd gweithgareddau mewn ysgolion yn gyfyngedig. Trefnwyd rhai gweithgareddau gan Bartneriaeth Bwyd Sir Fynwy, yn ystod y tymor a chymerodd tua 200 o blant ran mewn gweithgareddau llysiau yn y dosbarth a oedd yn cynnwys dyfalu enwau llysiau a blasu hwmws betys a ffyn moron. Cafwyd ymatebion cymysg i'r sesiynau blasu, yn amrywio o 'Dw i eisiau mynd â hwn adref i de a chael ciwcymbr a moron a betys a ffachys' a 'Mae hwn mor flasus, alla i ddim stopio bwyta' i 'Dw i'n teimlo'n sâl nawr, roedd hwnna'n afiach.' Mae hyn yn tanlinellu'r dylanwad y gall gweithgareddau gyda phlant ei gael. Trefnodd Partneriaeth Bwyd Sir Fynwy hefyd weithgareddau Bwyd a Hwyl yn seiliedig ar llysiau gyda 160 o blant yn cymryd rhan. Bu'r plant yn blasu ac yn gwneud celf gyda thomatos a chiwcymbrau a dyfwyd gan dyfwyr **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion**. Roedd y rhain yn helpu'r plant i ymgyfarwyddo â llysiau a blasu rhai na fyddent o bosibl wedi eu blasu o'r blaen, a dywedodd un athro

'Roedd y plant yn awyddus iawn i flasau'r llysiau a dywedodd rhai eu bod yn hoffi'r blas ac nad oedden nhw wedi eu blasu o'r blaen.'





Dyweddodd y plant ‘Dwi jest eisiau dweud bod y bwyd yn flasus iawn’,
 ‘Doeddwn i erioed wedi ei flasgu o’r blaen, ac roeddwn i’n ei hoffi’n
 fawr’, ‘Roedd yn hwyl, fe wnes alw fy un i yn Gary’ a

**‘Doeddwn i ddim yn meddwl y byddwn i’n ei hoffi,
 ond roedd e’n flasus!’**

Roedd gweithio gyda phlant yn brofiad hynod gadarnhaol ac mae
 angen gwneud mwy o hynny wrth symud ymlaen, o ran bod yn rhan
 o weithgareddau Bwyd a Hwyl ond hefyd fel rhan o’r cwricwlwm. Yn
 ystod tymor yr Hydref 2024, ymwelodd gwerthuswr²⁰ ar ran **Llyisiau
 o Gymru ar gyfer Ysgolion**, a ariannwyd drwy gronfa Cefnogi
 Cwmnïau Lleol DTA Cymru, â nifer o ysgolion yn ardaloedd Bro
 Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr i siarad â phlant a mesur yr
 ymateb i’r cynllun **Llyisiau o Gymru ar gyfer Ysgolion**. Fe wnaeth y
 gwerthuswr ddarganfod y canlynol:

Pennaethiaid Ysgol

- Dim ond ychydig o ddealltwriaeth oedd ganddynt o’r cynllun Llyisiau o Gymru ar gyfer Ysgolion
- Roedd hyn yn golygu nad oedd cysylltiadau â’r cwricwlwm wedi’u creu gyda’r timau arlwyio nac yn uniongyrchol gyda Llyisiau o Gymru ar gyfer Ysgolion
- Wrth ddysgu am y prosiect yn ystod y broses gyfweld, roedd pob Pennaeth yn rhagweld amrywiaeth o fanteision o ran y cwricwlwm y gallid eu datblygu yn y dyfodol
- Roedd pawb yn unfrydol yn eu cefnogaeth i ymweliadau fferm
- Roedd pawb eisiau parhau i gymryd rhan yn Llyisiau o Gymru ar gyfer Ysgolion yn y flwyddyn newydd

²⁰ Cyflawnwyd y gwaith hwn gan Louise Gray a ariannwyd gan DTA Cymru drwy’r gronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol



Staff Addysgu

- Roedd y staff addysgu a oedd yn cynnal prosiectau O'r Fferm i'r Fforc, prosiectau Tyfu neu weithgareddau Cynaliadwyedd, yn teimlo gallent elwa o gysylltu â'r ddarpariaeth prydau ysgol a staff arlwyio yn y dyfodol
- Teimlwyd y byddai adnoddau dwyieithog yn gysylltiedig â Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion yn ddefnyddiol

Staff Arlwyio

- Dangosodd staff arlwyio ddyfeisgarwch a chreadigrwydd o ran y ffordd yr oeddent yn defnyddio'r llysiau, gan ddefnyddio pob rhan o'r llysiau ac mewn ffyrdd a oedd yn debygol o fod yn dderbyniol i'r plant
- Roeddent yn gwerthfawrogi manteision llysiau lleol, organig a gwerth cymryd rhan yn y cynllun Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion
- Mae gan staff arlwyio lawer o sgiliau nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol o fewn yr ysgol, ac mae gan rai flynyddoedd o brofiad a byddent yn gwerthfawrogi chwarae mwy o ran
- Roeddent wedi'u hysgogi i gynyddu faint o lysiau y mae plant yn eu bwyta a lleihau gwastraff bwyd
- Roedd mwy o wastraff bwyd gyda disgyblion yn y dosbarthiadau babanod a byddent yn gwerthfawrogi mwy o hyblygrwydd mewn perthynas â maint dognau



Plant

- Mae'n well gan blant blatiau go iawn sy'n ddigon mawr ar gyfer llysiau a salad
- Maent yn hoffi salad, sy'n aml yn cael ei weini mewn gwydryn a'i fwyta gyda'u bysedd
- Maent yn hoffi ciwcymbr yn fwy na llysiau eraill
- Maent yn hoffi peli cig a chyrri katsu felly mae cyfle i 'guddio' llysiau yn y prydau hyn
- Maent (rhai ohonynt) yn awyddus i flasu gwahanol lysiau – fel ysgewyll neu india corn ar y cobyn
- Awgrymwyd y gellid ychwanegu blas at rai neu eu coginio'n wahanol
- Nid oeddent yn ymwybodol eu bod yn bwyta llysiau organig Cymreig. Roedd hyn hefyd yn wir am athrawon a goruchwylwyr amser cinio. Dim ond y staff arlwy oedd yn ymwybodol o'r newidiadau i gynnyrch organig ac nid oedd yr un ohonynt yn hyrwyddo hyn i'r plant

Mae angen gwneud llawer mwy o waith i ddatblygu adnoddau systematig y gellir eu defnyddio yn y cynllun Bwyd a Hwyl ac fel rhan o'r cwricwlwm sy'n ategu gwaith **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion**. Mae angen adnoddau hefyd i gyfleu uchelgais a phwysigrwydd Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion i reolwyr arlwy, penaethiaid, athrawon, staff arlwy a phlant a'u rhieni a'u gofalwyr.

Mae angen gwneud mwy o waith gyda phlant ar flas a gwastraff llysiau i ganfod pa lysiau y mae plant yn eu hoffi a faint sy'n cael eu gwastraffu a sut y gellir datblygu bwydlenni sy'n apelio at blant ar yr un pryd â chynyddu pa mor dderbyniol ydynt a chynyddu'r llysiau a fwyteir. Gallai hyn gynnwys defnyddio gwaith [Veg Power](#).

Dylai pob plentyn yng Nghymru hefyd gael y cyfle i ymweld â fferm lysiau unwaith yn ystod eu haddysg gynradd.



Cynllunio ar gyfer 2025

O ran llysiau, y gwir amdani yw bod y gwaith cynllunio cyflenwadau yn dechrau o leiaf flwyddyn ymlaen llaw, felly dechreuodd y gwaith cynllunio ar gyfer 2025 yn 2024. Mae hwn yn gwbl allweddol i bawb sy'n cymryd rhan, yn enwedig y tyfwyr.

Rhoddodd **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** gyflwyniad i reolwyr arlwyo Cymru yn nigwyddiad Cymdeithas Arlwyo Awdurdodau Lleol Cymru ym mis Hydref 2024. Roedd hwn yn gyfle da i gael trafodaeth a chafodd rheolwyr arlwyo syniad realistig o'r hyn yr oedd **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** yn ei olygu. Rhoddwyd ffurflen Mynegi Diddordeb i bob Awdurdod Lleol i'w chwblhau os oeddent am fod yn rhan o'r cynllun **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** yn 2025 yn gofyn iddynt nodi faint o lysiau yr hoffent eu prynu. Ymrwymodd deuddeg Awdurdod Lleol i gymryd rhan yn y cynllun yn 2025. Roedd y rhain yn cynnwys y chwe ardal a oedd yn rhan ohono yn 2024 yn ogystal â Sir Benfro, Ceredigion, Torfaen, Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Gwynedd.

Ym mis Rhagfyr 2024, cynhaliwyd dau gyfarfod amlranddeiliaid – un yn Ne-orllewin Cymru ac un yng Ngogledd Cymru. Bwriad y cyfarfodydd hyn oedd adolygu'r flwyddyn a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Roedd y trafodaethau'n hanfodol ar gyfer cynllunio a chael gwared ar rwystrau a rhoi atebion ar waith. Darparodd hyn y llwyfan ar gyfer cyfarfodydd cynllunio cnydau gyda thyfwyr yn seiliedig ar dri chyflenwr cyfanwerthu gwahanol: Castell Howell yn y De, Bwydydd Oren yn y Gogledd a Bishops ym Mro Morgannwg a'r cyffiniau.

Ar gyfer 2025, mae 15 o dyfwyr wedi cyfrannu at gynlluniau cnydau ar y cyd ar gyfer **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** i gyflenwi tua 80,000 o unedau o lysiau (winwns, tomatos, ciwcymbr, letys, courgettes, moron, brocoli, cennin, blodfresych, pupurau, ffa gwyrdd a swêd), drwy 3 cyfanwerthwr i 12 Awdurdod Lleol.

Mae Partneriaethau Bwyd Lleol hefyd wedi dechrau ar waith i edrych ar yr adnoddau cyfathrebu ac addysgol y gellid eu datblygu i gefnogi gwaith **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion**, gan gynnwys Veg Power.



Crynodeb o'r hyn a ddysgwyd drwy'r stori

Tyfwyr, safonau a systemau

- ▶ Roedd y cynllun **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** yn ddefnyddiol i dyfwyr oherwydd ei fod:

- Yn darparu llwyfan ar gyfer cydweithio a chefnogaeth i dyfwyr eraill
- Wedi gwarantu incwm/pris ar gyfer llysiau i ysgolion (oni bai bod y cnwd yn methu)
- Yn hyblyg - nid oedd cosb am dangyflenwi ac yn aml roedd modd gorgyflenwi
- Wedi darparu grantiau bach i adeiladu seilwaith
- Yn rhoi cyhoeddusrwydd i dyfwyr a chyfleoedd i gael incwm ychwanegol o ymweliadau ysgol â ffermydd



- ▶ Mae'r sector cynhyrchu llysiau yng Nghymru yn fach ac felly mae angen buddsoddiad sylweddol ymlaen llaw i ddiogelu'r sector
- ▶ Dylid cynnal rhagolwg o'r galw a chreu cynllun cnydau y cytunir arno gan arlwywyr a thyfwyr cyn y tymor tyfu
- ▶ Dylai tyfwyr greu cynllun cnydau sydd mor realistig â phosibl gan ystyried amrywiadau tebygol yn y tywydd
- ▶ Mae mwy o dyfwyr ar draws ystod o dirweddau yn cynyddu gwydnwch
- ▶ Mae angen Safon bwrpasol i Gyflenwr sy'n Dyfwyr Graddfa Fach, ynghyd ag archwiliad
- ▶ Mae angen ffordd o wirio honiadau cynaliadwyedd tyfwyr e.e. ardystiad. Dylid rhoi ystyriaeth bellach i ddewisiadau eraill yn lle ardystiad organig, fel systemau gwarant cyfranogol



Cyfanwerthwyr

- ▶ Mae angen gwell systemau logisteg a systemau symlach i wneud llysiau organig Cymreig yn ddewis syml a chyfleus. Dylid datblygu systemau a'r gallu i ragweld er mwyn lleihau gwaith i reolwyr arlwygo a staff arlwygo

- Dylid pennu isafswm pwysau casgliadau
- Mae angen lleihau'r amser y mae llysiau'n ei dreulio mewn storffeydd
- Dylid mireinio manylebau llysiau



- ▶ Mae angen amser gweinyddol ar y cyfanwerthwyr
- ▶ Hefyd mae angen defnyddio cyn lleied o ddeunydd pacio â phosibl ac ymchwilio i ffyrdd o leihau'r deunydd pacio a'i wneud yn gynaliadwy/amlddefnydd.
- ▶ Dylid gweithio gydag amrywiaeth o gyfanwerthwyr
- ▶ Dylid datblygu cynhyrchion sy'n defnyddio llysiau sy'n tyfu'n dda yng Nghymru
- ▶ Mae cael hunaniaeth/brand yn helpu



Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol

- ▶ Dylai Llywodraeth Cymru/Awdurdodau Lleol gynyddu cyllidebau pryddau bwyd 1% i 3.3c er mwyn selio buddsoddiad cadwyn gyflenwi cynaliadwy yn y system. Byddai hyn yn helpu i gymell mwy o ffermwyr a thyfwyr i fuddsoddi mewn systemau cynhyrchu llysiau ar eu ffermydd
- ▶ Dylai safonau bwyd ysgol newydd ganiatáu hyblygrwydd i gynnwys llysiau tymhorol ar y fwydlen
- ▶ Mae angen monitro effaith polisi lleihau gwastraff i sicrhau nad yw'n arwain at ddefnyddio mwy o fwydydd wedi'u prosesu mewn ceginau ysgol.
- ▶ Mae angen mwy o fuddsoddiad mewn seilwaith ar gyfer garddwriaeth yng Nghymru:

- Seilwaith sy'n helpu i gyflenwi llysiau ar raddfa fawr fel peiriannau golchi cnydau gwreiddlysiau, peiriannau bagio ac ati
- Ar gyfer seilwaith ar ffermydd - mwy o siediau pacio, storfeydd oer, twneli polythen a systemau dyfrhau
- A pheiriannau fferm ar gyfer garddwriaeth



- ▶ Dylid parhau i gefnogi tyfwyr drwy'r cynllun Garddwriaeth Cyswllt Ffermio a chaniatáu hyblygrwydd o ran dulliau ffermio
- ▶ Mae angen cymorth ar gyfer garddwriaeth drwy haenau dewisol a chydweithredol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy



Cynullwyr

- ▶ Dylid parhau â'r rôl cynnull a chefnogi nes bydd yr heriau sy'n gysylltiedig â'r system fwyd wedi'u datrys ar gyfer tyfwr a marchnadoedd a than i systemau mwy diogel gael eu datblygu i gyflenwi cynnyrch drwy brosesau caffael
- ▶ Dylid parhau i gasglu ymchwil a data
- ▶ Nid yw arbed carbon yn gyfystyr â Sero Net a gellid gwneud mwy i ddatgarboneiddio cadwyni cyflenwi a chynhyrchiant garddwriaethol a dylai hwn barhau i fod yn faes i ymchwilio iddo
- ▶ Dylid parhau i ddatblygu systemau cyfathrebu da
- ▶ Dysgu oddi wrth eraill, mewn gwledydd eraill
- ▶ Modelu'r seilwaith sydd ei angen er mwyn ehangu cynhyrchiant

- Ymchwilio i gyfleusterau rhewi



Ysgolion a phlant

- ▶ Mae angen mwy o ymchwil i wastraff llysiau a deunydd pacio mewn ceginau
- ▶ Mae angen darparu mwy o wybodaeth a hyfforddiant i staff y gegin ar lysiau organig Cymreig a beth i'w ddisgwyl a sut i'w paratoi
- ▶ Dylid parhau i gyfathrebu gwaith **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion**, a datblygu adnoddau i gyfathrebu â rheolwyr arlwygo, penaethiaid, athrawon, staff arlwygo a phlant
- ▶ Dylid datblygu adnoddau systematig sy'n gysylltiedig â llysiau ar gyfer bwyd a hwyl a'r cwricwlwm sy'n ategu gwaith **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** ac sy'n cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru
- ▶ Dylid parhau i weithio gyda phobl i ddatblygu bwydlenni tymhorol a chynaliadwy
- ▶ Gweithio gyda phlant i newid y system. Dylid gweithio ar flas a gwastraff llysiau i ganfod pa lysiau y mae plant yn eu hoffi a faint sy'n cael eu gwastraffu a sut y gellir datblygu bwydlenni sy'n apelio at blant ar yr un pryd â chynyddu pa mor dderbyniol ydynt a chynyddu'r llysiau a fwyteir



DIOLCH

Diolch yn fawr i gyllidwyr **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** a phawb a fu'n rhan o'r gwaith o wireddu **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion**.
Mae llwyddiant y prosiect i'w briodoli i'r cydweithio rhagorol ar draws y system fwyd a thu hwnt.

I ddysgu mwy, ewch i [**Adroddiad Llawn Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion**](#)

Mae atodiadau ar gael [**yma**](#) a gellir cael cyfrifiadau sy'n sail i'r dadansoddiad yn y ddogfen hon drwy e-bostio cais i [**foodsensewales@wales.nhs.uk**](mailto:foodsensewales@wales.nhs.uk)



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

